
Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Adroddiad Blynyddol 2005/06

Y Comisiynydd dros Weinyddiaeth Leol yng Nghymru
Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru
Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru
Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Adroddiad Blynyddol 2005/06

Y Comisiynydd dros Weinyddiaeth Leol yng Nghymru
Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru
Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru
Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru

Cyflwynwyd ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan
Baragraff 6 Atodlen 9 a Pharagraff 7 Atodlen 10
Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ar 14 Mehefin 2006

# Cynnwys


| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | | 5 |
| 2 | Trawsnewidiad a pharhad: fy rôl fel Ombwdsmon yn 2005-6 | | 6 |
| 3 | Llwyth gwaith ar draws pob un o'r pedwar cynllun ombwdsmon sector cyhoeddus yng Nghymru | | 8 |
| 4 | Adroddiad y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru | | 12 |
| | 4.1 | Cwynion: trosolwg ac ystadegau | 12 |
| | 4.2 | Cwynion: materion o ddiddordeb arbennig | 17 |
| | 4.3 | Cwynion: crynodebau o achosion enghreifftiol | 19 |
| | 4.4 | Honiadau: trosolwg ac ystadegau | 29 |
| | 4.5 | Honiadau: crynodebau o achosion enghreifftiol | 35 |
| 5 | Adroddiad Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru | | 41 |
| | 5.1 | Trosolwg ac ystadegau | 41 |
| | 5.2 | Materion o ddiddordeb arbennig | 46 |
| | 5.3 | Crynodebau o achosion enghreifftiol | 47 |
| 6 | Adroddiad Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru | | 58 |
| | 6.1 | Trosolwg ac ystadegau | 58 |
| | 6.2 | Crynodebau o achosion | 60 |
| 7 | Adroddiad Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru | | 64 |
| | 7.1 | Trosolwg ac ystadegau | 64 |
| | 7.2 | Crynodeb o achos | 67 |

Atodiad: Perfformiad o gymharu â Chynllun Corfforaethol 2005/06 68

# 1 Cyflwyniad


Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU



Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn Ebrill 2005. Yn Hydref 2005, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Gorchymyn angenrheidiol fel bod y Ddeddf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2006.

O ganlyniad, dyma'r tro olaf y byddaf yn adrodd ar y pedair awdurdodaeth wahanol a arferai fod gennyf fel y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru; Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru; Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru (ni pharhaodd y swydd olaf yn hir iawn oherwydd yng Ngorffennaf 2005 y crëwyd hi).

Fel y byddech yn disgwyl, mae'r rhan fwyaf o waith y swyddfa yn ystod 2005/06 wedi bod yn ymwneud â pharatoi ar gyfer cyflwyno Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), tra'n parhau i ddelio gyda'r llwyth achosion arferol o ymholiadau a chwynion. Mae hyn wedi rhoi llawer o bwysau ar fy staff, a hoffwn gofnodi yma fy niolch diffuant i bob un ohonynt am eu cefnogaeth, eu gwaith caled a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.



**Adam Peat**
Ombwdsmon

# 2 Trawsnewidiad a pharhad: fy rôl fel Ombwdsmon yn 2005-06

Yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei hadolygu yr oeddwn yn gweithredu o reidrwydd yn unol â'r ddeddfwriaeth a oedd yn berthnasol i'r pedwar cynllun Ombwdsmon a oedd yn bodoli ar y pryd, ac yn dal i gyflogi dau grŵp o staff a oedd ar wahân mewn enw. Fodd bynnag, bu'r swyddfa'n gweithredu fel un corff yn ymarferol, i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl, gyda gweithdrefnau tebyg. O ganlyniad, cafwyd cyfnod cysgodol fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Hanfod fy rôl yn y gwahanol awdurdodaethau oedd ymchwilio'n ddiduedd i gwynion a wnaethpwyd gan aelodau o'r cyhoedd eu bod wedi cael eu trin yn annheg gan gorff cyhoeddus, neu eu bod wedi cael gwasanaeth gwael oherwydd rhyw ddiffyg ar ran y corff a oedd yn ei ddarparu.

Roedd y ddeddfwriaeth ym mhob achos yn nodi, oni bai fy mod yn credu bod rheswm da dros wneud eithriad, na ddylwn ymchwilio i gŵyn os nad oedd yr achwynydd yn y lle cyntaf wedi codi'r mater yn uniongyrchol gyda'r corff perthnasol ac wedi rhoi cyfle rhesymol i'r corff hwnnw ymchwilio ac ymateb. (Yn achos cwynion yn erbyn y GIG, disgwylid y byddai'r achwynydd fel rheol wedi dilyn trefn gwyno'r GIG i ddechrau).

Cynhaliwyd fy ymchwiliadau yn breifat. Yn yr achosion hynny lle cyhoeddais adroddiad, tynnais bob enw ohono er mwyn sicrhau, i'r graddau y gellid gwneud hynny heb amharu ar effeithiolrwydd yr adroddiad, na ddatgelid pwy oedd yr achwynydd nac ychwaith yr unigolion eraill a oedd yn gysylltiedig â'r achos.

Fodd bynnag, dim ond mewn nifer bach iawn o'm hymchwiliadau y bu'n rhaid cyhoeddi adroddiad ffurfiol. Mewn rhai achosion, lle deuthum i'r casgliad na ddylid cyfiawnhau cwyn, byddai'r trefniadau statudol presennol ar gyfer cyhoeddi adroddiad wedi bod yn drafferthus ac yn gostus iawn (roedd yn ofynnol i awdurdod lleol dalu am gyhoeddusrwydd i unrhyw adroddiad yn ymwneud ag ef y byddwn yn ei gyhoeddi, pa un a oedd y gŵyn yn cael ei chyfiawnhau ai peidio). Mewn achosion eraill parodd fy ymyriad i i'r awdurdod dan sylw gynnig iawndal boddhaol, a lle nad oedd mater o ddiddordeb i'r cyhoedd yn ehangach yn codi, yr oeddwn yn fodlon rhoi'r gorau i'm hymchwiliad ar y sail honno.

Lle penderfynais gyhoeddi adroddiad, roedd y ddeddfwriaeth yn nodi y dylai adroddiad a oedd yn ymwneud ag awdurdod lleol gael ei wneud yn gyhoeddus; ni chyhoeddwyd adroddiadau eraill ond roedd yn ddyletswydd arnaf i anfon copi o bob adroddiad a wneuthum fel Comisiynydd y Gwasanaeth Iechyd ac fel Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru at Brif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol. Yn yr holl achosion hynny lle canfûm fod aelod o'r cyhoedd wedi dioddef anghyfiawnder, gwneuthum argymhellion i'r corff cyhoeddus dan sylw ynglŷn â'r hyn y dylai ei wneud er mwyn gwneud iawn i'r achwynydd. Lle canfûm fod yr anghyfiawnder yn deillio o ddiffyg systemig, gwneuthum argymhellion hefyd gyda'r bwriad o leihau'r risg y byddai problemau tebyg yn codi eto yn y dyfodol. Derbyniwyd fy argymhellion yn ddieithriad gan y cyrff dan sylw (er fy mod mewn un achos wedi gorfod gwneud adroddiad arall i awdurdod lleol er mwyn sicrhau'r canlyniad hwn).

Rhan arall o'm gwaith fel Ombwdsmon Llywodraeth Leol oedd ymchwilio (dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000) i gwynion bod aelodau o gyrff llywodraeth leol wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod. Lle gwelaf dystiolaeth bod aelod wedi torri'r cod yn sylweddol, mae'n ofynnol imi gyflwyno adroddiad yn nodi'r dystiolaeth naill ai i bwyllgor safonau'r awdurdod, neu (mewn achosion mwy difrifol yn gyffredinol) i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru. Cyfrifoldeb y pwyllgor safonau neu'r tribiwnlys yw ystyried y dystiolaeth a gefais ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw, a phenderfynu a yw'r cod wedi ei dorri, ac os ydyw, pa gosb y dylid ei rhoi, os oes angen cosb.

3

# Llwyth gwaith ym mhob un o’r pedair awdurdodaeth

## 3.1 Cwynion – Cymhariaeth rhwng 2005/06 a 2004/05

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn 2005/06 yn nifer y cwynion newydd a dderbyniwyd – fel y dengys y tabl isod, gwelwyd cynnydd o 386 yn nifer yr achosion newydd, gan wneud y cyfanswm dros draean yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol.

| | Llywodraeth Leol | | Iechyd | Gweinyddiaeth Cymru | Tai Cymdeithasol* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cwynion | Honiadau | | | | |
| Achosion a gariwyd drosodd o 2003/04 | | | | | | 308 |
| Achosion newydd 2004/05 | 676 | 175 | 159 | 42 | - | 1,052 |
| Cyfanswm gwaith achos 2004/05 | | | | | | 1,360 |
| Achosion a gariwyd drosodd o 2004/05 | | | | | | 477 |
| Achosion newydd 2005/06 | 904 | 281 | 180 | 45 | 28 | 1,438 |
| Cyfanswm gwaith achos 2004/05 | | | | | | 1,915 |
| Achosion i’w cario drosodd i 2006/07 | | | | | | 410 |

* Roedd Tai Cymdeithasol yn gyfrifoldeb newydd o 15 Gorffennaf 2005 ymlaen.

Gwelwyd cynnydd o 555 yng nghyfanswm yr achosion yn ystod 2005/06, gan gynnwys achosion a gariwyd drosodd o’r flwyddyn flaenorol, o gymharu â 2004/05. Mae’n braf gweld, er gwaetha’r cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion a dderbyniwyd yn ystod 2005/06, bod nifer yr achosion sy’n cario drosodd i 2006/07 i lawr i 410 o’r 477 a gariwyd drosodd o 2004/05 i 2005/06; mae hyn yn ostyngiad o 67 o achosion yn cael eu cario drosodd.  Rwy’n ffyddiog bod y gwelliant hwn o ran perfformiad wrth gau achosion wedi ei sicrhau tra’n dal i gynnal archwiliadau ac ymchwiliadau trylwyr.

## 3.2 Amseroedd Penderfynu

Dengys y tabl isod faint o amser a gymerwyd i gwblhau achosion o'r adeg y derbyniwyd ffurflen neu lythyr cwyno.

Er fy mod yn falch bod dros 70% o'r cwynion a dderbyniwyd gan fy swyddfa wedi eu datrys cyn pen chwe mis, mae gormod o achosion wedi cymryd dros 12 mis i'w cwblhau ac rwyf wedi gosod targedau sy'n cynnig her ar gyfer 2006/07 er mwyn ceisio gwella'r perfformiad cyffredinol presennol.

| Amser a gymerwyd | % |
|---|---|
| O fewn 3 mis | 51 |
| 3 - 6 mis | 20 |
| 6 - 9 mis | 12 |
| 9 - 12 mis | 7 |
| 12 - 18 mis | 7 |
| 18 - 24 mis | 3 |
| | 100 |

## 3.3 Crynodeb o'r canlyniadau

Ceir crynodeb isod o ganlyniadau'r achosion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

| Cwynion | | Nifer y cwynion |
|---|---|---|
| Tu hwnt i awdurdodaeth | | 287 |
| Cynamserol | | 213 |
| Ddim yn ddigon difrifol | | 41 |
| Terfynwyd: | | |
| Dim tystiolaeth o galedi neu anghyfiawnder | 80 | |
| Dim tystiolaeth o gamweinyddiad neu ddiffyg gwasanaeth | 327 | |
| Yr achwynydd heb ddarparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani | 62 | |
| Yr achwynydd wedi tynnu'r gŵyn yn ôl (heb ei setlo'n lleol) | 24 | |
| Rhesymau eraill | 1 | 494 |
| 'Setliad Buan' (h.y. setlo'n gynnar ar awgrym yr Ombwdsmon heb ymchwiliad llawn) | | 36 |
| Setliad Gwirfoddol (yn dilyn ymchwiliad yr Ombwdsmon) | | 110 |
| Cyhoeddwyd adroddiad: y gŵyn ddim yn ddilys | | 18 |
| Cyhoeddwyd adroddiad –y gŵyn yn ddilys: | | |
| Gwneud iawn – ymddiheuriad | 7 | |
| Gwneud iawn - newid yng ngweithdrefnau'r awdurdod a enwyd | 15 | |
| Gwneud iawn – camau eraill gan yr awdurdod a enwyd (ac eithrio iawndal) | 9 | |
| Gwneud iawn – newid yng ngweithdrefnau'r awdurdod a enwyd ynghyd â chamau eraill gan yr awdurdod a enwyd (ac eithrio iawndal) | 5 | |
| Gwneud iawn gydag iawndal yn unig neu iawndal ac ymddiheuriad | 4 | |
| Iawndal ynghyd â newid yng ngweithdrefnau'r awdurdod a enwyd | 14 | |
| Ffordd Arall o Wneud Iawn | 1 | 55 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – Cwynion** | | **1,254** |

| Honiadau | |
|---|---|
| Penderfynu peidio ag ymchwilio i honiad | 154 |
| Terfynwyd ymchwiliad i honiad: | |
| Terfynwyd | 8 |
| Terfynwyd, cyfeiriwyd at y Swyddog Monitro | 11 |
| Canlyniad yr Honiad (adroddiad byr): | |
| Dim tystiolaeth o dorri'r Cod | 45 |
| Dim angen cymryd unrhyw gamau | 22 |
| Canlyniad yr Honiad (adroddiad llawn): | |
| Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | 11 |
| Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | 8 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – Honiadau** | **259** |
| Cyfanswm y Canlyniadau | 1,513 |

4

# Adroddiad y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru

## 4.1 Cwynion: trosolwg ac ystadegau

### Cynghorau Sir/Bwrdeistref Sirol

Roedd nifer y cwynion ynglŷn â llywodraeth leol yn 2005-6 draean yn fwy na'r flwyddyn flaenorol – 904 o gymharu â 676. Fodd bynnag, ni welais unrhyw beth sy'n awgrymu bod y cynnydd sylweddol hwn o ganlyniad i ddirywiad ym mherfformiad cynghorau. Ymddengys yn llawer mwy tebygol bod y sylw a roddwyd i swyddfa'r Ombwdsmon a'r taflenni cyhoeddusrwydd newydd a ddosbarthwyd ar ddechrau'r flwyddyn wedi gwneud y cyhoedd ac asiantaethau cynghori fel canolfannau Cyngor Ar Bopeth a Shelter Cymru yn fwy ymwybodol y gellid cysylltu â'r Ombwdsmon er mwyn ceisio cael cynghorau i wneud iawn am gwynion difrifol. Rhaid i hyn fod yn beth da.

Un elfen a oedd yn achosi mwy o bryder oedd y cynnydd yn nifer yr adroddiadau cyhoeddus ffurfiol i gyfiawnhau cwyn - 15 - a gyhoeddais yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cymharu â nifer isel iawn o ddim ond 4 adroddiad o'r fath yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod yn gyfran fach iawn o'r holl gwynion a ystyriwyd gennyf, ac roedd yn adlewyrchu'n rhannol un broblem weddol gyffredin a gododd yn ystod y flwyddyn yng ngwasanaeth tai'r cynghorau, sef methiant i fynd i'r afael yn iawn â goblygiadau Deddf Digartrefedd 2002. Mae hyn wedi golygu, mewn nifer o achosion yr adroddais amdanynt, na chafodd ymgeiswyr am dai neu gymorth digartrefedd y cymorth neu'r flaenoriaeth y dylent fod wedi ei chael. O ganlyniad i hyn ysgrifennais yr Adroddiad Arbennig cyntaf erioed i'w gyhoeddi gan Ombwdsmon Llywodraeth Leol Cymru – canllawiau ar gyfer pob un o'r 22 cyngor sir.


Mae Adroddiadau Arbennig o'r fath wedi eu cyhoeddi'n gymharol aml yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan Ombwdsmyn Llywodraeth Leol Lloegr. Roeddwn yn falch felly o gael cyfle i gydweithio â hwy, hefyd am y tro cyntaf, er mwyn cynhyrchu Adroddiad Arbennig ar y cyd wedi ei gyfeirio at bob Cyngor yng Nghymru a Lloegr ar fater diogelwch cofebion mewn mynwentydd awdurdodau lleol. Bwriadaf gadw llygad am gyfleoedd eraill yn y dyfodol i rannu gwybodaeth berthnasol o ymchwiliadau'r Ombwdsmyn fel hyn. Byddaf yn trafod y ddau Adroddiad Arbennig hyn yn fanylach ar dudalen 17.

Mae'r tabl isod yn cynnwys manylion ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd yn erbyn pob un o'r 22 Cyngor sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru.

| Awdurdod | Cyfanswm y Cwynion (dygwyd ymlaen a newydd yn y flwyddyn) | Tu hwnt i awdurdodaeth | Cynamserol | Terfynwyd | Setliad (buan) | Setliad gwirfoddol yn dilyn ymchwiliad | Cyhoeddwyd adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn yn ddilys | Cyhoeddwyd adroddiad cyhoeddus: cwyn yn ddilys | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 25 | 5 | 2 | 10 | | 1 | | 1 | 6 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 31 | 6 | 3 | 13 | 1 | 2 | | 1 | 5 |
| Caerffili | 78 | 10 | 5 | 37 | 5 | 6 | | 1 | 14 |
| Caerdydd | 100 | 19 | 9 | 37 | 2 | 6 | | 2 | 25 |
| Sir Gaerfyrddin | 96 | 9 | 11 | 38 | 4 | 6 | | | 28 |
| Conwy | 52 | 13 | 6 | 16 | 2 | | | 1 | 14 |
| Ceredigion | 42 | 9 | 3 | 14 | 1 | 1 | | 1 | 13 |
| Sir Ddinbych | 39 | 8 | 8 | 13 | 1 | 2 | | | 7 |
| Sir y Fflint | 47 | 8 | 3 | 22 | | 4 | | 1 | 9 |
| Gwynedd | 63 | 6 | 10 | 32 | | 2 | 1 | 2 | 10 |
| Ynys Môn | 48 | 12 | 2 | 25 | | 2 | | | 7 |
| Merthyr Tudful | 50 | 11 | 8 | 10 | 2 | 5 | | 1 | 13 |
| Sir Fynwy | 29 | 5 | 2 | 12 | | | | 1 | 9 |
| Castell-nedd Port Talbot | 54 | 10 | 10 | 23 | | 1 | | | 10 |
| Casnewydd | 47 | 9 | 4 | 15 | 3 | 3 | | | 13 |
| Sir Benfro | 61 | 12 | 7 | 21 | 1 | 7 | | 1 | 12 |
| Powys | 61 | 20 | 6 | 17 | 1 | 3 | | | 14 |
| Rhondda Cynon Taff | 56 | 6 | 7 | 22 | | 5 | | 1 | 15 |
| Abertawe | 85 | 16 | 17 | 27 | 3 | 6 | | 1 | 15 |
| Bro Morgannwg | 52 | 10 | 8 | 19 | 3 | 3 | | | 9 |
| Torfaen | 41 | 11 | 3 | 14 | 2 | 6 | | | 5 |
| Wrecsam | 60 | 23 | 3 | 19 | 3 | 2 | | | 10 |
| **CYFANSWM** | **1,217** | **238** | **137** | **456** | **34** | **73** | **1** | **15** | **263** |

## Cwynion a dderbyniwyd yn ôl maes gwasanaeth yn 2005/06

Mae'r siart isod yn dadansoddi'r cwynion a dderbyniwyd yn erbyn cynghorau sir yn ôl maes gwasanaeth. Cynllunio (yn enwedig rheoli datblygu) a thai yw'r meysydd gwasanaeth y cwynir amdanynt amlaf o hyd.




## Cyrff Eraill yn yr awdurdodaeth

Mae nifer o gyrff eraill sy'n rhan o'm hawdurdodaeth fel Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol Cymru a cheir manylion isod am y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r rhain:

| Awdurdod | Cyfanswm y Cwynion (dygwyd ymlaen a newydd yn y flwyddyn) | Tu hwnt i awdurdodaeth | Cynamserol | Terfynwyd | Setliad (buan) | Setliad Gwirfoddol | Cyhoeddwyd Adroddiad Cyhoeddus – cwyn yn ddilys | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Asiantaeth yr Amgylchedd** | 5 | 1 | 1 | 2 | | | | 1 |
| **Cyrff Addysgol** | | | | | | | | |
| Panel Apeliadau – Ysgol Gyfun Caerllion | 1 | | | | | | 1 | |
| Panel Apeliadau – Gynradd Lakeside | 1 | | | 1 | | | | |
| Panel Apeliadau – Ysgol Penglais | 1 | | | | | 1 | | |
| Panel Apeliadau – Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd | 1 | | | | | | 1 | |
| Panel Apeliadau – Ysgol Uwchradd Caerdydd | 1 | 1 | | | | | | |
| Corff Llywodraethu Corpus Christi | 1 | 1 | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **6** | **2** | | **1** | | **1** | **2** | |
| | | | | | | | | |
| **Awdurdodau Parc Cenedlaethol** | | | | | | | | |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 14 | 2 | 2 | 8 | | 1 | | 1 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 5 | 2 | | 4 | | | | |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 4 | 1 | | 2 | | 1 | | |
| **CYFANSWM** | **23** | **5** | **2** | **14** | | **2** | | **1** |
| | | | | | | | | |
| **Awdurdodau'r Heddlu** | | | | | | | | |
| Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 2 | | | | 1 | | | 1 |
| Awdurdod Heddlu De Cymru | 3 | 2 | | | | 1 | | |
| **CYFANSWM** | **5** | **2** | | | **1** | **1** | | **1** |

## 4.2 Cwynion: Materion o Ddiddordeb Arbennig

### Adroddiad Arbennig: Dyrannu Tai a Digartrefedd

Dangosodd nifer o gwynion a dderbyniwyd gan fy swyddfa ynglŷn â materion dyrannu tai a digartrefedd broblem gyffredin o ran y ffordd yr ymdrinnir â cheisiadau o'r fath. Roedd nifer sylweddol o'r 22 awdurdod lleol sydd yng Nghymru heb gyflwyno polisïau a gweithdrefnau dyrannu tai a digartrefedd a oedd yn rhoi'r gofynion deddfwriaethol perthnasol, yn enwedig y rhai hynny a gyflwynwyd dan Ddeddf Digartrefedd 2002, ar waith yn ymarferol. Daeth y Ddeddf hon i rym ar 27 Ionawr 2003 a siom o'r mwyaf oedd gweld dair blynedd yn ddiweddarach bod rhai cynghorau yn dal heb fabwysiadu a gweithredu polisïau priodol. O ganlyniad uniongyrchol i'r diffygion hyn mewn polisïau a gweithdrefnau, canfûm mewn nifer o ymchwiliadau mewn gwahanol awdurdodau bod unigolion a oedd wedi gwneud cais am dai cymdeithasol neu am gymorth digartrefedd heb dderbyn y cymorth neu'r flaenoriaeth y dylent fod â hawl iddi.

Penderfynais gyhoeddi, yn Chwefror 2006, yr adroddiad arbennig cyntaf erioed i'w gyhoeddi gan Ombwdsmon yng Nghymru, gan ddwyn ynghyd y gwersi a ddysgwyd o'r ymchwiliadau hyn i gwynion unigol. Argymhellais y dylai pob cyngor sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru adolygu ar fyrder pa mor gyfreithlon oedd eu polisïau a'u gweithdrefnau yng ngoleuni'r cyfarwyddyd a'r argymhellion a oedd yn fy adroddiad arbennig. Mae'r adroddiad hwn i'w weld ar fy ngwefan neu gellir cael copi caled ohono gan fy swyddfa.

### Adroddiad Arbennig ar y Cyd â'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yn Lloegr: Diogelwch cofebion mewn mynwentydd awdurdodau lleol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafodd nifer o gymunedau lleol yng Nghymru ac yn Lloegr eu dychryn a'u digio wrth weld cynghorau'n gosod cannoedd o gerrig beddau i orwedd o ganlyniad i archwiliadau iechyd a diogelwch. I bobl a oedd yn ymweld â'r mynwentydd ar ôl i hyn ddigwydd roedd yn ymddangos fel pe bai fandaliaeth ar raddfa fawr wedi digwydd yno. Daeth fy nghyd Ombwdsmyn yn Lloegr a minnau i'r casgliad bod y cynghorau ar fai oherwydd: methiant i sicrhau cyhoeddusrwydd/hysbysiad digonol cyn cynnal profion sefydlogrwydd neu osod cofebion unigol a fethodd y prawf i orwedd; diffyg systemau priodol ar gyfer asesu

risg a blaenoriaethu gwaith o ganlyniad i hynny; diffyg hyfforddiant priodol ar gyfer y rheiny sy'n cynnal y profion; a methiant i gymryd i ystyriaeth y gwahanol ffyrdd y gellir gwneud cofebion yn ddiogel heb orfod eu gosod i orwedd. Yn ein barn ni, drwy lunio cynlluniau priodol, hyfforddi staff a'u gwneud yn ymwybodol o'r dewisiadau eraill, ni ddylai cynghorau orfod rhoi cymaint o gofebion i orwedd.

Os bydd cynghorau yng Nghymru yn talu sylw ac yn dysgu o'r ymarfer da a nodwyd yn yr Adroddiad Arbennig hwn, credaf y dylent allu sicrhau diogelwch y cyhoedd ac ar yr un pryd osgoi'r holl ofid a thrallod a achoswyd ambell waith yn y gorffennol i aelodau o'r cyhoedd. Mae'r adroddiad arbennig hwn i'w weld ar fy ngwefan neu gellir cael copi ohono gan fy swyddfa.

## Adroddiad Pellach: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ym Medi 2005, cyflwynais adroddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar fy ymchwiliad i gŵyn am y modd yr ymdriniodd y Cyngor â theulu digartref, y cyfeirir atynt fel Mr a Mrs White. Canfûm fod y Cyngor wedi camweinyddu, ac yn fwyaf arbennig, bod agweddau ar bolisi dyrannu tai'r Cyngor yn anghyfreithlon. Roedd hyn wedi achosi anghyfiawnder i Mr a Mrs White. Argymhellais y dylai'r Cyngor wneud iawn i Mr a Mrs White mewn ffordd addas, ac argymhellais hefyd y dylai'r Cyngor adolygu ei bolisi dyrannu tai er mwyn cydymffurfio â gofynion y gyfraith ac ystyried y canllawiau statudol perthnasol.

Ystyriwyd fy adroddiad gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2005. Yn ôl cofnodion y cyfarfod penderfynodd y Cyngor yn rhannol –

"... Nad yw'r Cyngor yn derbyn argymhellion adroddiad yr Ombwdsmon oherwydd nad yw'r Cyngor yn cytuno â'r ddeddfwriaeth am ei bod yn cael effaith niweidiol ar bobl leol."

Er gwaetha'r penderfyniad y cyfeirir ato uchod, ystyriodd Cabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2005 bolisi dyrannu tai'r Cyngor a chymeradwyodd y gwelliant a argymhellwyd i wneud y polisi yn unol â'r gyfraith. Fodd bynnag, roedd hynny'n golygu na wnaethpwyd iawn i Mr a Mrs White am yr anghyfiawnder personol a achoswyd gan gamweinyddiad y Cyngor.

Dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth leol 1974, os nad wyf yn fodlon â'r camau y mae awdurdod lleol wedi eu cymryd neu y bwriada eu cymryd mewn ymateb i'm hadroddiad ar ymchwiliad i gŵyn, mae'n ddyletswydd arnaf i gyhoeddi adroddiad pellach.

Yn Chwefror 2006, felly, cyhoeddais adroddiad arbennig, a oedd yn argymell y dylai'r Cyngor roi ystyriaeth bellach i'm hargymhellion gwreiddiol mewn perthynas â gwneud iawn i Mr a Mrs White am yr anghyfiawnder yr oeddent wedi ei ddioddef o ganlyniad i gamweinyddiad y Cyngor. Yr argymhellion hynny oedd y dylai'r Cyngor dalu'r swm o £1500 i Mr a Mrs White fel cydnabyddiaeth o'r costau ychwanegol yr oedd y teulu White wedi gorfod eu hysgwyddo heb fod angen a'r trallod a'r anghyfleustra a dioddefwyd gan y teulu; ac y dylai'r Cyngor yn awr roi Mr a Mrs White ar restr aros y Cyngor, gan ôl-ddyddio eu dyddiad ymuno â'r rhestr i 8 Rhagfyr 2004.

Galwais ar aelodau o'r Cyngor i gadw gofynion y gyfraith a'r cod ymddygiad ar gyfer aelodau yn glir yn eu meddyliau wrth roi ystyriaeth bellach i'm hadroddiad a'r argymhellion ynglŷn â gwneud iawn i Mr a Mrs White. Anogais hwy i ystyried y byddai'n annheg ac yn anghywir iddynt arllwys eu rhwystredigaeth â'r gyfraith ar ddigartrefedd ar un teulu penodol a oedd mewn amgylchiadau anffodus heb fod unrhyw fai arnynt hwy. Rwy'n falch o ddweud bod y Cyngor mewn cyfarfod ar 2 Mawrth wedi derbyn fy argymhellion yn llawn a'u bod bellach wedi gwneud iawn fel sy'n deg i'r teulu dan sylw.

Dyma'r tro cyntaf ers ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 i Ombwdsmon Llywodraeth Leol Cymru orfod cyhoeddi adroddiad pellach.

## 4.3 Cwynion: crynodebau o achosion enghreifftiol

### Cyngor Sir Caerdydd: Budd-dal Treth y Cyngor

Gwnaeth Mr Thomas gais am Fudd-dal Treth y Cyngor (BTC) a chyflwynodd dystiolaeth lawn o'i incwm gyda'i gais. Dychwelwyd un eitem, tystysgrif cyfranddaliadau, ato ar unwaith a dywedwyd wrtho "na ellir asesu ei gwerth". Bu oedi wrth asesu ei gais y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn ôl Rheoliadau'r BTC a phan dderbyniodd y llythyr yn gwrthod budd-dal iddo oherwydd bod ei incwm yn rhy uchel, gwelodd ei fod wedi ei asesu'n anghywir. Roedd y swm a gofnodwyd ar y system yn rhy uchel gan nad oedd y cyfnod diofyn ar feddalwedd y Cyngor wedi cael ei newid gan yr asesydd.

4

Gofynnwyd i Mr Thomas am dystiolaeth o'i gyfranddaliadau a gofynnwyd cwestiynau am fanylion ei gyfrif banc. Roedd Mr Thomas yn anhapus gyda'r ymholiadau hyn, yn enwedig gan ei fod wedi cyflwyno ei dystysgrif cyfranddaliadau gyda'i gais ac roedd yn teimlo eu bod yn amau ei onestrwydd o ran ei gyfrif banc. Dechreuodd gwyno trwy'r sianelau priodol ac yna daeth wyneb yn wyneb â nifer o anawsterau cyfathrebu, gan gynnwys peidio ateb ei negeseuon ffôn. Dyfarnwyd BTC iddo ac yna derbyniodd lythyr arall yn dweud wrtho eu bod wedi cynyddu ei hawliad. Gwelwyd mai'r rheswm dros hyn oedd camgymeriad gyda'r meddalwedd a oedd yn effeithio ar geisiadau gan bensiynwyr a chymerwyd pedwar mis i'w ddatrys.

Roedd safon y llythyrau hysbysu a anfonwyd gan yr awdurdod yn isel ac roeddent yn aml yn anghywir. Parhaodd yr anawsterau cyfathrebu a phenderfynodd Mr Thomas ddwysau ei gwyn ond rhoddodd y gorau iddi pan ymddengys fod y mater wedi'i ddatrys. Yn ddiweddarach ysgrifennodd atynt i'w hysbysu am rai newidiadau i'w incwm ac amgaeodd dystiolaeth i gadarnhau hynny. Ar sail hynny penderfynodd y Cyngor fod un o'i daliadau budd-dal wedi codi yn gynnar yn ystod ei hawliad ac nad oedd wedi eu hysbysu am hyn.

Tua 19 wythnos yn ddiweddarach arweiniodd hyn at ddiddymu ei BTC a olygai fod gordaliad o £355 mewn BTC wedi'i wneud iddo. Anfonwyd tri llythyr ato ar yr un dyddiad gyda phob un yn cyfeirio at gyfnod gwahanol ac yn rhoi cyfrifiadau cyfrifiadur. Nid oedd y llythyrau'n rhoi rhesymau eglur na digonol dros y newid, y cyfrifiadau na'r camau adfer a fwriedid eu cymryd ac nid oedd Mr Thomas yn deall beth oedd yn digwydd. Dyma pryd y cwynodd ataf i.

Pan dderbyniodd eglurhad yn ddiweddarach, dywedodd Mr Thomas, a oedd yn hawlio am y tro cyntaf, ei fod yn credu y byddai'r Cyngor yn cael ei hysbysu'n uniongyrchol o newidiadau i daliadau budd-dal gwladol. Fel arall yr oedd wedi bod yn gydwybodol wrth roi gwybodaeth i'r Cyngor.

Mae rheoliadau'r BTC yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol brosesu ceisiadau newydd o fewn 14 diwrnod neu cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny, ac yn yr un modd dylid delio â newidiadau mewn amgylchiadau mewn modd amserol fel arfer cyn y dydd Llun yn dilyn yr hysbysiad o newid os byddai'n arwain at ostyngiad i'r budd-dal.

Yr hawlydd sy'n gyfrifol am hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid a all effeithio ar yr hawliad; gall methu â gwneud hynny olygu y gellir hawlio unrhyw ordaliad a wneir yn ôl. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar yr awdurdod i ystyried a yw'n briodol ai peidio i adfer yr arian trwy ystyried amgylchiadau penodol yr achos dan sylw. Dylai llythyrau sy'n hysbysu hawlydd o benderfyniad a wneir y cyngor esbonio'r rheswm dros unrhyw newid i'r hawliad, roi eglurhad o sut y gwnaethpwyd y cyfrifiad a'r rhesymau dros unrhyw gamau y bwriedir eu cymryd.

Daethum at y casgliad nad oedd yr awdurdod wedi cydymffurfio â'r rheoliadau o ran amseroedd prosesu ac roedd wedi gwneud nifer o gamgymeriadau wrth gyfrifo, a gwnaethpwyd un camgymeriad dwywaith. Canfûm nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos fod y cyngor wedi ystyried yn ddigon manwl a ddylai hawlio'r gordaliad BTC yn ôl ac yng ngolwg y gwasanaeth annerbyniol yr oedd Mr Thomas wedi'i dderbyn dros gyfnod o ddeunaw mis teimlais y dylai'r Cyngor fod wedi dangos mwy o gydymdeimlad tuag ato. Nid oedd y Cyngor wedi adolygu'r achos tan yn hwyr yn yr ymchwiliad ac yna ildiodd y cais am ad-daliad.

Er bod gan yr awdurdod system rheoli perfformiad, roedd wedi methu â darparu gwasanaeth derbyniol i Mr Thomas ar sawl achlysur ac argymhellais ei fod yn adolygu ei heffeithiolrwydd. Argymhellais hefyd y dylid ailhyfforddi staff ar y camau y dylid eu cymryd wrth wneud penderfyniad ar adfer gordaliadau ac y dylai'r Cyngor adolygu darpariaethau ei gontract TG a'i lythyrau safonol i sicrhau gwell gwasanaeth i gwsmeriaid. Argymhellais y dylai'r Cyngor ymddiheuro a thalu £250 i Mr Thomas i gydnabod yr amser a'r drafferth yr aeth iddo i wneud y cwynion hyn.

## Cyngor Blaenau Gwent: Tai Cymdeithasol

Cwynodd Mrs Jones yn erbyn y ffordd yr oedd Cyngor wedi delio â'i chais am le mewn tŷ cymdeithasol. Roedd wedi aros dros ddwy flynedd am gartref. Yr oedd yn byw mewn carafán un ystafell gyda phedwar o blant ifanc, roedd iechyd y plant yn dioddef gan fod y garafán yn llaith, heb ddigon o le i bawb ac roedd y cyfleusterau ar y safle'n brin. Dywedodd fod y Cyngor yn rhoi esgusodion iddi dro ar ôl tro a'i bod yn ymddangos fod teuluoedd eraill y gwyddai amdanynt yn cael cartref o'i blaen hi. Cysylltodd â'i Chynghorydd, ei AS lleol, Shelter Cymru ac amryw o weithwyr iechyd proffesiynol, ac roedd pob un o'r rhain wedi ysgrifennu i eiriol ar ei rhan. Gofynnodd am gael ei henwebu gyda chymdeithas tai.

Gwnaethpwyd cwyn ar y cyd i'r Ombwdsmon gan Mrs Jones a Shelter Cymru, ar ôl i'r olaf anfon pedwar llythyr heb yr un ateb yn holi ynglŷn â sefyllfa Mr Jones o ran cael tŷ a'i rhagolygon o gael un.

Roedd tai cymdeithasol yn yr ardal yn cael eu darparu gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol a oedd yn cynnal cofrestr tai ac oedd ganddo ond drefniadau 'ad hoc' gydag un o'r cymdeithasau tai lleol, lle byddent yn hysbysu'r Cyngor os oedd ganddynt gartref i gynnig i un o'i ymgeiswyr.  Nid oedd yna unrhyw trefniadau enwebu ffurfiol mewn lle.

Mae Deddf Ddigartrefedd 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gael system ar waith i ddyrannu eiddo sy'n rhoi blaenoriaeth resymol i bum categori diffiniedig, er enghraifft ymgeiswyr digartref sy'n byw mewn eiddo afiach neu orlawn. Mae'n rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i fynd ati'n rhagweithiol i asesu amgylchiadau ymgeiswyr er mwyn pennu a ydynt yn ddigartref, ni ddylai'r ymgeisydd orfod cysylltu â'r awdurdod mewn unrhyw ffordd benodol na gwneud cais i gael eu trin fel rhywun digartref er mwyn rhoi cyfrifoldebau'r awdurdod ar waith.

Darganfuais fod polisi dyrannu'r Cyngor a oedd yn weithredol ar adeg y gwyn wedi cael ei lunio o dan Ddeddf Tai 1996 ac nid oedd yn adlewyrchu mewn unrhyw ffordd y ddeddfwriaeth gyfredol na'r Cod Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2003.

Edrychais ar y pwyntiau a roddwyd i gais Mrs Jones a'r dewis o ardaloedd a gofrestrwyd ar ei chyfer gan y Cyngor a gwelais fod y ddau'n anghywir trwy gydol cyfnod ei chais. Pe bai achos Mrs Jones wedi cael ei weinyddu'n briodol, mae'n debyg y byddai wedi cael cartref o fewn ychydig fisoedd ar ôl gwneud ei chais. Dangoswyd fod llawer o ymgeiswyr eraill gyda llai o bwyntiau wedi cael eu cartrefu o'i blaen.

Gwelais wendidau yn null yr awdurdod o ddelio â gohebiaeth ac nid oeddent yn cynnal asesiadau rhagweithiol o ymgeiswyr i ganfod eu statws digartrefedd posibl. Nid oedd ganddynt drefniadau boddhaol ar waith i ddelio ag asesu agweddau meddygol ceisiadau ac roedd hynny'n arwain at beidio dyfarnu pwyntiau meddygol i Mrs Jones, er gwaethaf afiechyd ei phlant a llythyrau gan weithwyr iechyd proffesiynol i gadarnhau hynny.

Disgrifiais y trefniadau gweinyddol yn yr awdurdod fel rhai truenus a daethum i'r casgliad pe bai ei chais wedi cael ei drin fel y dylai y byddai Mrs Jones wedi cael cartref newydd o fewn misoedd yn hytrach na blynyddoedd ar ôl gwneud cais. Yng ngolwg yr amodau cwbl annigonol y bu'r teulu'n byw ynddynt am dros ddwy flynedd, argymhellais y dylai'r Cyngor dalu swm o £5,000 i'r teulu a chyhoeddi ymddiheuriad. Yr oeddent, erbyn cyhoeddi'r adroddiad, wedi cael eu cartrefu.

Argymhellais hefyd y dylai'r Cyngor gyflwyno cynllun dyrannu yn unol â'r gofynion cyfreithiol a'u bod yn adolygu'r holl geisiadau cyfredol am dai i sicrhau eu bod yn cael eu hasesu'n gywir. Yn ogystal, argymhellais y dylai'r awdurdod gyflwyno gweithdrefnau gwell i asesu blaenoriaethau meddygol ac i ddelio â gohebiaeth.

## Cyngor Gwynedd - Hamdden

Cwynodd Mr a Mrs White trwy eu Haelod Cynulliad fod ymateb y Cyngor wedi bod yn annigonol yn dilyn damwain eu mab David mewn pwll nofio sy'n cael ei reoli gan y Cyngor. Honnwyd hefyd nad oedd y Cyngor wedi cynnal ymchwiliad priodol i'r gŵyn ffurfiol a wnaethpwyd gan Mr a Mrs White.

Roedd David, a oedd yn 10 oed ar y pryd, wedi bod yn nofio gyda ffrindiau ym mhwll y Cyngor pan anafodd ei fraich wrth daro yn erbyn gwaith metel a oedd yn rhannu'r pwll. Aeth i'r cawodydd tra'r oedd eraill yn chwilio am gymorth y swyddog ar ddyletswydd yn y pwll a gyflogir gan y Cyngor. Er ei fod yn gwaedu'n drwm, honnwyd fod y swyddog wedi rhegi ar David ac nad oedd wedi rhoi cymorth cyntaf iddo. Yn ddiweddarach y noson honno, aeth Mr a Mrs White â David i adran ddamweiniau'r ysbyty lleol lle cafodd 5 o bwythau i gau'r clwyf.

Aeth Mr a Mrs White i ymweld â'r pwll y bore canlynol i gwrdd â rheolwr y pwll a oedd ar ddyletswydd. Daeth yn amlwg nad oedd y ddamwain wedi ei chofnodi yn y llyfr damweiniau yn unol ag arferion cyhoeddedig y Cyngor. Cwynodd y cwpl i'r Cyngor ond ni chawsant ymateb tan rai misoedd yn ddiweddarach yn dilyn llythyr atgoffa a anfonwyd gan y cyfreithwyr yr oedd Mr a Mrs White wedi eu cyflogi. Dywedodd y Cyngor ei fod yn cynnal ymchwiliad llawn i'r gŵyn. Ni chafwyd ymateb pellach tan i gais pellach gael ei wneud gan Aelod Cynulliad Mr a Mrs White. Roedd hynny flwyddyn ers damwain David. Cadarnhaodd ymateb y Cyngor fod y ffeil wedi'i ffeilio'n anghywir a bod hynny wedi arwain at oedi.

Fodd bynnag, roedd yr ymchwiliad llawn a gwrandawiad disgyblu'r swyddog ar ddyletswydd wedi'u cwblhau tua phedwar mis ynghynt.

Cydnabu'r Cyngor fod y broses ymchwilio wedi cymryd mwy o amser nag y dylai. Roedd yn derbyn nad oedd wedi cysylltu â Mr a Mrs White gyda chanlyniad yr ymchwiliad pan ddylai fod wedi gwneud.

Mae gan gynghorau ddyletswydd gofal cyfraith gwlad i ddefnyddwyr eu cyfleusterau hamdden a hefyd rwymedigaeth statudol i gydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981. Mae'r rhain yn cynnwys darparu offer a chyfleusterau digonol a pherthnasol i weinyddu cymorth cyntaf yn achos anafiadau. Dylid hefyd sicrhau fod gweithdrefnau gweithredol ar waith i ofalu am ddiogelwch defnyddwyr cyfleusterau hamdden gan gynnwys trefniadau i gofnodi damweiniau.

Canfûm nad oedd y Cyngor wedi ymateb na delio'n briodol â'r ddamwain a ddioddefodd David. Er nad oedd tystiolaeth i awgrymu fod y Cyngor mewn unrhyw ffordd yn gyfrifol am y ddamwain, nid oedd wedi dilyn ei weithdrefnau ei hun trwy beidio â chofnodi'r digwyddiad yn y Llyfr Damweiniau yn y pwll ac nid oedd cymorth cyntaf wedi'i weinyddu i glwyf David fel sy'n ofynnol. Ni chafodd y ddamwain ei chofnodi ychwaith pan ymwelodd Mr a Mrs White â'r pwll y diwrnod canlynol.

Nid oedd y Cyngor ychwaith wedi ymateb mewn modd amserol i gwyn ffurfiol Mr a Mrs White. Nid oedd wedi cadw at yr amserlen sydd wedi'i chynnwys yn ei drefniadau cwyno ei hun, nid oedd wedi lansio ymchwiliad llawn ar unwaith ac roedd wedi methu â hysbysu Mr a Mrs White o ganlyniad y gwrandawiad disgyblu a chwynion terfynol.

Yr oeddwn yn fodlon nad oedd y Cyngor wedi gweithredu'n briodol i gynnal ymchwiliad llawn ac nad oedd wedi ymdrin â David fel y dylai yn dilyn ei ddamwain. Roedd hyn wedi achosi trallod i David a'i rieni yn y cyfnod yn dilyn y ddamwain a rhwystredigaeth yn sgil yr oedi wrth ddelio â'u cwyn ddilys. Roedd Mr a Mrs White hefyd wedi dioddef anhwylustod trwy orfod cyflogi cyfreithiwr, ac yna gysylltu â'u Haelod Cynulliad i gael sylw i'w cwyn.

Cadarnhaodd y Cyngor o ganlyniad i'r ymchwiliad yr oedd wedi cynnal adolygiad o'i weithdrefnau iechyd a diogelwch a disgyblu er mwyn sicrhau na fydd oedi o'r fath yn digwydd eto. Roedd system olrhain cwynion yn cael ei ddatblygu ar gyfer Swyddog Monitro'r Cyngor fel amddiffyniad pellach.

Yr oedd y Cyngor hefyd yn cytuno â'm argymhelliad y dylai ymddiheuro ar unwaith i David ac i Mr a Mrs White am y diffygion a ganfuwyd. Cytunodd hefyd i'r argymhelliad y dylai gynnig swm o £100 i David fel iawndal am y trallod a ddioddefodd o ganlyniad i'w driniaeth ar ôl yr anaf ac i gynnig £250 i Mr a Mrs White am yr anhwylustod a'r drafferth a achoswyd iddynt wrth wneud eu cwyn.

## Cyngor Sir Fynwy: Cynllunio

Cwynodd Mrs Perkins nad oedd y Cyngor wedi'i hysbysu o gais cynllunio a gyflwynwyd gan ei chymydog yn gofyn am estyniad ar ei fyngalo dwy ystafell wely i greu tŷ pedair ystafell wely, ar ddau lawr, ac felly ni chafoddd y cyfle i wrthwynebu'r cais.

Darganfuais fod y Cyngor wedi ysgrifennu i hysbysu Mrs Perkins a deiliaid y tai cyfagos o'r cais. Fodd bynnag, derbyniodd y Cyngor fod y cyfeiriad ar y llythyr a anfonwyd at Mrs Perkins yn anghywir ac nad oedd wedi ei dderbyn. Nid oedd y Cyngor wedi arddangos hysbysiad cyhoeddus ger safle'r cais.

Ni dderbyniodd y Cyngor yr un gwrthwynebiad i'r cais. O ganlyniad cymeradwyodd Pennaeth Rheoli Datblygu'r Cyngor y cais.

Saith mis yn ddiweddarach, cyflwynwyd cais pellach i'r Cyngor gan gymydog Mrs Perkins, a oedd yn ymwneud â chynyddu maint ystafell wely a oedd yn edrych dros eiddo Mrs Perkins. Ni chafodd unrhyw un o'r cymdogion eu hysbysu o'r addasiad yn y cais, ac fe'i cymeradwywyd gan y swyddogion fel "mân addasiad".

Flwyddyn yn ddiweddarach, daeth Mrs Perkins yn ymwybodol o raddfa'r gwaith a oedd yn digwydd yn eiddo'i chymydog. Cysylltodd â'r Cyngor a dywedwyd wrthi fod caniatâd cynllunio wedi'i roi i'r estyniad dan sylw. Cwynodd Mrs Perkins nad oedd y Cyngor wedi ymgynghori â hi ynglŷn â'r datblygiad a'i fod yn amharu ar fwyniant ei heiddo.

O ganlyniad i ymchwiliad a gynhaliwyd i'w chwyn, derbyniodd y Cyngor nad oedd wedi ymgynghori â Mrs Perkins ynghylch cais ei chymydog, a oedd yn groes i'r gofynion deddfwriaethol ac i weithdrefn rheoli datblygu'r Cyngor ei hun. Cyhoeddwyd gorchymyn ar gymydog Mrs Perkins, a oedd yn gosod amod na chaniateid iddo osod gwydr clir yn ffenestr yr ystafell wely sy'n edrych i lawr ar eiddo Mrs Perkins.

4

Ystyriais fod methiant y Cyngor i ymgynghori â Mrs Perkins ynglŷn â'r cais a'r addasiad yn gamweinyddu wedi achosi anghyfiawnder i Mrs Perkins, gan ei bod wedi colli dau gyfle i wrthwynebu'r datblygiad. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai unrhyw wrthwynebiad gan Mrs Perkins wedi atal y datblygiad, ond byddai amod i beidio gosod gwydr clir yn ffenestr yr ystafell wely sy'n edrych i lawr ar yr eiddo arall wedi ei gynnwys yn y caniatâd cynllunio o'r cychwyn.

Argymhellais fod y Cyngor yn adolygu ei weithdrefnau rheoli datblygiadau, yn ymddiheuro i Mrs Perkins, yn talu iawndal iddi am y gost o blannu i helpu i guddio'i heiddo oddi wrth y datblygiad cyfagos a thalu iawn iddi am ei hamser a'i thrafferth wrth wneud ei chwyn.

Derbyniodd y Cyngor f'argymhellion. Mae wedi ail-gyflunio ei swyddogaeth rheoli datblygiadau ac wedi cyflwyno system TG newydd mewn ymdrech i osgoi camgymeriadau tebyg yn y dyfodol. Mae wedi ymddiheuro i Mrs Perkins ac wedi talu £800 iddi fel iawndal.

## Dinas a Sir Abertawe: Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae gan yr achwynydd fab ifanc ag anabledd difrifol ac sy'n methu cerdded i fyny grisiau. Argymhellodd therapydd galwedigaethol y Cyngor y dylid addasu cartref y teulu i osod ystafell wely ac ystafell ymolchi ar y llawr isaf, ond ar ôl cynnal prawf o'i adnoddau, nid oedd yr achwynydd yn gymwys i dderbyn grant gorfodol cyfleusterau i bobl anabl o dan y ddeddfwriaeth tai.

Yna gwnaeth yr achwynydd gais i'r Cyngor am gymorth o dan Adran 2 Ddeddf Cleifion Cronig a Phobl Anabl 1970. Er gwaethaf ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Plant 1989 (o ran plant mewn angen) ac o dan Ddeddf 1970, ac er gwaethaf y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig (Cylchlythyr 59/96), nid oedd gan y Cyngor bolisi i ddelio â cheisiadau o'r fath. Bu oedi cyn delio â chais yr achwynydd, ac ni roddodd ystyriaeth briodol i'r adroddiad a baratowyd gan y therapydd galwedigaethol a oedd yn argymell y dylai Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ddarparu cymorth ariannol i wneud y gwaith addasu angenrheidiol. Yn y diwedd hysbyswyd yr achwynydd gan y Cyngor ei fod wedi penderfynu peidio rhoi cymorth ariannol ac fe'i cynghorwyd i wneud cais am grant cyfleusterau i bobl anabl er ei fod wedi dilyn y trywydd hwnnw eisoes gyda'r Cyngor a ddaeth i'r casgliad na fyddai, ar sail eu hincwm, yn gymwys i dderbyn cymorth grant.

Aeth yr achwynydd â'r mater ymhellach trwy gwyno i'w Haelod Cynulliad, ond bu oedi pellach cyn i'r Cyngor ymateb i'r Aelod Cynulliad. Roedd ymateb y Cyngor i'r Aelod Cynulliad (a oedd yn cadarnhau ei benderfyniad i beidio rhoi cymorth ariannol) yn cynnwys gwybodaeth anghywir ynglŷn ag adnoddau'r achwynydd, sef ei fod yn talu am addysg breifat i'w blant eraill.

Daethum i'r casgliad fod diffyg polisi priodol i ddelio â cheisiadau am gymorth o dan Ddeddf 1970 ac oedi'r Cyngor yn achosion o gamweinyddu. Oherwydd hyn, daethum i'r casgliad fod yr achwynydd a'i fab wedi dioddef anghyfiawnder am nad oedd eu cais am gymorth ariannol wedi cael ei ystyried mewn ffordd deg a phriodol ac yn unol â'r gyfraith.

Fodd bynnag, penderfynais nad oedd y cyngor yn euog o gamweinyddu yn y ffordd y bu'n ailystyried cais yr achwynydd am grant cyfleusterau i bobl anabl o dan ei bolisïau grantiau tai newydd. Golygai hynny y byddai'n bosibl cael grant tuag at gost y gwaith addasu ond fod yr achwynydd wedi ei wrthod.

Ers hynny mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi gwasanaethau cymdeithasol i ddelio â cheisiadau am gymorth o dan Ddeddf 1970. Mae wedi cytuno â fy argymhelliad i ailystyried cais yr achwynydd am gymorth ariannol yn unol â'r polisi newydd. Mae wedi cytuno hefyd i adolygu unrhyw achosion eraill lle gall fod dyletswydd arno fel Cyngor i ddarparu cymorth o dan Ddeddf 1970, ac i adolygu ei drefniadau cwyno.

Yn olaf, mae'r Cyngor wedi cytuno i dalu iawndal o £2000 i'r achwynydd i gydnabod effaith ei fethiannau ar y teulu a'u mab ac i gydnabod yr amser a'r drafferth a neilltuwyd wrth baratoi eu cwyn i mi.

## Cyngor Gwynedd: Gwasanaethau Cymdeithasol

Roedd mam wedi cwyno am y ffordd yr oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi delio gyda'r pryder yr oedd wedi ei fynegi wrthynt dro ar ôl tro dros gyfnod sylweddol o amser, sef bod un o'i phlant yn cam-drin aelodau eraill o'r teulu. Teimlai nad oedd y Cyngor wedi asesu'r risg a oedd yn gysylltiedig â'r plentyn hwn. Cyfeiriodd hefyd at ddiffygion gweinyddol yng ngweithdrefnau'r Gynhadledd Amddiffyn Plant a honnodd nad oedd y Cyngor wedi darparu'r seibiant angenrheidiol. Yn gyffredinol, dywedodd fod methiant y Cyngor wedi achosi i'r teulu chwalu.

Deuthum i'r casgliad nad oedd y Cyngor wedi cymryd cwynion y fam o ddifrif nac wedi gwneud yr ymchwiliad angenrheidiol. Yn bennaf oll, nid oedd wedi rhoi sylw i'r risg a oedd yn gysylltiedig â'r un plentyn hwn. Arweiniodd y methiant hwn at drallod ac anghyfleustra i'r teulu. Canfûm nad oedd y Cyngor wedi diwallu anghenion seibiant y plentyn fel yr oeddent wedi eu nodi yn y cynllun gofal. Yn ychwanegol at hyn, cyfiawnheais gŵyn y fam ynglŷn â diffygion gweinyddol mewn perthynas â gweithdrefnau'r Gynhadledd Amddiffyn Plant. Mynegais bryder nad oedd y Cyngor wedi delio gyda chwynion y fam dan drefn gwyno fewnol y Cyngor o fewn yr amserlen a bennwyd.


Argymhellais y dylai'r Cyngor dalu £750 i'r fam ac y dylai taliadau o £1,500 yr un gael eu rhoi mewn cronfa ymddiriedol ar gyfer tri o'i phlant. Argymhellais hefyd y dylid gwneud newidiadau er mwyn sicrhau nad yw'r diffygion gweinyddol a nodwyd mewn perthynas â Chynadleddau Amddiffyn Plant yn digwydd eto ac, yn fwyaf arbennig, bod yr argymhellion yn cael eu monitro gan uwch swyddogion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Nodais na ddylai fy adroddiad gael ei gyhoeddi yn yr achos hwn oherwydd sensitifrwydd y wybodaeth a oedd yn ymwneud â'r plant yn y teulu.

**Mae crynodebau eraill (ynghyd ag adroddiadau ymchwilio llawn) i'w gweld ar fy ngwefan: www.ombudsman.wales.org.uk**

## 4.4 Honiadau o gamymddwyn: trosolwg ac ystadegau

Dengys y graff isod mai honiadau yn erbyn cynghorwyr cymuned/tref yw'r grŵp mwyaf o honiadau a dderbyniwyd. Mae hyn yn dilyn y patrwm a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Wrth gwrs, rhaid cofio bod 736 o gynghorau cymuned yng Nghymru a nifer sylweddol o gynghorwyr cymuned i gyfateb i hynny.



Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Nodais yn fy adroddiad y llynedd fod llawer o'r honiadau a dderbyniais yn rhai digon pitw, ac mae'r un peth yn wir am 2005/06. Rhaid imi fynegi unwaith eto fy mhryder bod nifer bychan o gynghorau cymuned yn gyfrifol am nifer anghymesur o honiadau o'r fath. Yn aml iawn, mae'r rhain yn cael eu gwneud gan un aelod o'r cyngor yn erbyn aelod arall o'r cyngor, a hynny mae'n debyg ar sail 'cast am gast'. Mewn ambell achos ymddengys i mi bod drwgdeimlad personol yn amharu ar allu'r cyngor i wasanaethu'r gymuned yn effeithiol. Rwyf wedi rhybuddio pob aelod o ddau gyngor cymuned na ddylent wneud honiadau plagus, gan fod hynny ynddo'i hun yn torri'r cod ymddygiad.

Ym mhegwn arall y sbectrwm, cafwyd nifer bychan o achosion lle canfûm dystiolaeth o gamymddygiad yr oedd angen ei ddwyn i sylw Panel Dyfarnu Cymru. Er na wnaethpwyd unrhyw atgyfeiriadau o'r fath yn ystod 2004/05, bu'n rhaid imi gyfeirio 8 achos o'r fath yn ystod 2005/06 (roedd 7 o'r rhain mewn perthynas ag aelodau cyngor sir ac 1 mewn perthynas ag aelod o gyngor cymuned). Ceir rhagor o fanylion am fy ymchwiliadau yn y tablau sy'n dilyn.

## Honiadau o gamymddwyn: aelodau o Gynghorau Sir/Bwrdeistref Sirol

| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | Cyfanswm yr Honiadau | Penderfynu peidio ag ymchwilio | Terfynwyd | Terfynwyd: Cyfeiriwyd at Swyddog Monitro ar gyfer ymchwiliad pellach | Dim tystiolaeth o dorri amodau | Dim angen gweithredu | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 37 | 28 | | | 4 | 2 | | | 3 |
| Blaenau Gwent | 5 | 2 | | | | | 1 | 1 | 1 |
| Bro Morgannwg | 4 | 1 | | 2 | 1 | | | | |
| Caerdydd | 5 | 2 | | | 2 | | | 1 | |
| Caerffili | 8 | 2 | | | 3 | | | 1 | 2 |
| Casnewydd | 3 | 1 | | | | 1 | | 1 | |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 | 2 | | | | | | | |
| Ceredigion | 3 | 2 | | | 1 | | | | |
| Conwy | 1 | | | | 1 | | | | |
| Gwynedd | 3 | 1 | | | | | 2 | | |
| Merthyr Tudful | 6 | 3 | 1 | | 1 | 1 | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | 1 | 1 | | 1 | | | | 1 |
| Powys | 2 | | | | 1 | | | | 1 |
| Rhondda Cynon Taf | 6 | 1 | | | 1 | 1 | 1 | 2 | |
| Sir Benfro | 10 | 4 | 1 | 1 | 2 | | 1 | 1 | |
| Sir Ddinbych | 1 | | | | | | | | 1 |
| Sir Fynwy | 5 | 3 | | | 1 | | | | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 2 | 1 | | | 1 | | | | |
| Sir y Fflint | 2 | | 1 | | | | | | 1 |
| Torfaen | 3 | 2 | | | 1 | | | | |
| Wrecsam | 7 | 3 | | | 2 | | 2 | | |
| Ynys Môn | 17 | 7 | | 1 | 2 | 1 | 1 | | 5 |
| CYFANSWM | 136 | 66 | 4 | 4 | 25 | 6 | 8 | 7 | 16 |

4

## Honiadau o gamymddwyn: aelodau o Gynghorau Cymuned a Thref

| Cyngor Cymuned/Tref | Cyfanswm yr Honiadau | Penderfynu peidio ag ymchwilio | Terfynwyd | Terfynwyd: Cyfeiriwyd at Swyddog Monitro ar gyfer ymchwiliad pellach | Dim tystiolaeth o dorri amodau | Dim angen gweithredu | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertyleri a Llanhiledd | 1 | | | | | 1 | | | |
| Aberystwyth | 1 | 1 | | | | | | | |
| Bryngwran | 1 | 1 | | | | | | | |
| Caergybi | 1 | 1 | | | | | | | |
| Caernarfon | 4 | 4 | | | | | | | |
| Caldicot | 10 | 10 | | | | | | | |
| Castell-nedd | 1 | 1 | | | | | | | |
| Cilâ | 2 | | | 1 | | | | | 1 |
| Clydach | 1 | | | | | | | 1 | |
| Coed-ffranc | 1 | | | | | | 1 | | |
| Crucywel | 2 | 2 | | | | | | | |
| Dynfant | 16 | 5 | | | 4 | | | | 7 |
| Graig | 1 | | | | | | | | 1 |
| Helygain | 9 | 9 | | | | | | | |
| Henllan Fallteg | 1 | | | | | | 1 | | |
| Llanaelhaearn | 3 | | | | 3 | | | | |
| Llandeilo Gresynni | 1 | 1 | | | | | | | |
| Llandudno | 1 | 1 | | | | | | | |
| Llaneilian | 2 | | | | | | | | 2 |
| Llanelli | 2 | 2 | | | | | | | |
| Llanfaelog | 1 | | | | | | 1 | | |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 4 | 2 | | | | 1 | | | 1 |

| Cyngor Cymuned/Tref | Cyfanswm yr Honiadau | Penderfynu peidio ag ymchwilio | Terfynwyd | Terfynwyd: Cyfeiriwyd at Swyddog Monitro ar gyfer ymchwiliad pellach | Dim tystiolaeth o dorri amodau | Dim angen gweithredu | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanidloes | 1 | | | | | | | | 1 |
| Llansanffraid-ar-Ogwr | 1 | | | | | 1 | | | |
| Maenorbŷr | 9 | 2 | 2 | | 4 | 1 | | | |
| Maesteg | 1 | 1 | | | | | | | |
| Marloes a Sain Ffraid | 6 | | | | 6 | | | | |
| Mostyn | 2 | | 1 | | | | | | 1 |
| Pengelli-ddrain | 6 | | | | | 6 | | | |
| Penlle'r-gaer | 1 | | | 1 | | | | | |
| Pontypridd | 1 | | | | | | | | 1 |
| Pont-y-pŵl | 1 | 1 | | | | | | | |
| Porth-cawl | 2 | 1 | | | 1 | | | | |
| Rhymni | 2 | 2 | | | | | | | |
| Saint-y-brid | 28 | 16 | | 5 | 1 | 1 | | | 5 |
| Shotton | 2 | 2 | | | | | | | |
| Sili | 9 | 6 | | | | | | | 3 |
| St Florence | 1 | 1 | | | | | | | |
| Tal-y-bont ar Wysg | 3 | 2 | | | | | | | 1 |
| Trefynwy | 10 | 8 | 1 | | 1 | | | | |
| Y Betws | 1 | 1 | | | | | | | |
| Y Gelli | 1 | 1 | | | | | | | |
| Y Rhyl | 1 | | | | | 1 | | | |
| CYFANSWM | 155 | 84 | 4 | 7 | 20 | 12 | 3 | 1 | 24 |

## Honiadau: aelodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau'r Heddlu

| Awdurdod | Cyfanswm yr Honiadau | Penderfynu peidio ag ymchwilio | Terfynwyd | Terfynwyd: Cyfeiriwyd at y Swyddog Monitro ar gyfer ymchwiliad pellach | Dim tystiolaeth o dorri amodau | Dim angen gweithredu | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 1 | | | | | 1 | | | |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 3 | | | | | 3 | | | |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 1 | 1 | | | | | | | |
| Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 3 | 3 | | | | | | | |
| CYFANSWM | 8 | 4 | | | | 4 | | | |

## 4.5 Honiadau o gamymddwyn: crynodebau o achosion enghreifftiol

### Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Derbyniais honiad gan Gynghorydd X fod Cynghorydd Y (sef Arweinydd y Cyngor) wedi torri cod ymddygiad y Cyngor ar gyfer aelodau. Roedd yn honni bod Cynghorydd Y yn 2002 wedi addo darparu cyfleusterau swyddfa ar gyfer grŵp aelodau Cynghorydd X pe bai ef (Cynghorydd X) a'i grŵp o aelodau yn cefnogi'r ymgeisydd yr oedd Cynghorydd Y yn ei ffafrio ar gyfer swydd y prif weithredwr. Dywedodd Cynghorydd X ei fod wedi cytuno â chynnig Cynghorydd Y a honnodd hefyd fod Cynghorydd Y ym Mehefin 2004 ar ôl i'r cyfleusterau swyddfa gael eu darparu wedi eu tynnu'r cyfleusterau oddi wrthynt gan dorri ei addewid.

Roedd yn ymddangos yn anorfod bod Cynghorydd X ei hun wedi torri'r cod ymddygiad pe canfyddid bod y materion a honnid ganddo ef yn wir yn eu hanfod. Ar y llaw arall, os na ellid profi'r materion a honnid ganddo, yna roedd yn ymddangos yn bosibl ei fod ef wedi torri'r cod ymddygiad drwy wneud honiad maleisus yn erbyn Cynghorydd Y, a thrwy roi cyhoeddusrwydd i'w honiad, wedi ymddwyn mewn modd y byddai'n rhesymol ystyried ei fod yn rhoi enw drwg i swydd yr aelod neu'r awdurdod.

Deuthum i'r casgliad ar ôl cwblhau'r ymchwiliad nad oedd tystiolaeth bod Cynghorydd Y wedi torri'r cod ymddygiad. Methodd Cynghorydd X â darparu tystiolaeth ddiamheuol ac ni allai yr un o'r tystion a enwyd ganddo gadarnhau ei honiadau. Roedd hynny o dystiolaeth a oedd ar gael yn cefnogi fersiwn Cynghorydd Y o'r hyn a ddigwyddodd, sef nad oedd unrhyw gysylltiad rhwng ei gytundeb i ddarparu cyfleusterau swyddfa i grŵp aelodau Cynghorydd X a phenodi'r prif weithredwr. Dangosai'r dystiolaeth ei fod wedi ystyried darparu lle fel swyddfa i grŵp aelodau Cynghorydd X rai misoedd cyn gwneud y trefniadau ar gyfer tynnu rhestr fer a chyfweld ymgeiswyr ar gyfer swydd y prif weithredwr.

Wrth ddod i'r casgliad bod yr honiad a wnaethpwyd gan Gynghorydd X yn erbyn Cynghorydd Y yn gwbl ddi-sail, deuthum i'r casgliad hefyd, oherwydd natur yr honiad, nad oedd unrhyw bosibilrwydd y gallai fod wedi ei wneud mewn camgymeriad gonest. Deuthum i'r casgliad fod Cynghorydd X wrth wneud yr honiad yn erbyn Cynghorydd Y heb unrhyw dystiolaeth i gefnogi ei hawliadau wedi gwneud cwyn faleisus.

Er bod Cynghorydd X yn gwadu anfon manylion am ei honiad i'r wasg, ac er bod yr ymchwiliad wedi methu â chanfod sut yr ymddangosodd manylion am yr ohebiaeth yn y wasg leol, roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod Cynghorydd X yn bwriadu i'r mater gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd.  Deuthum i'r casgliad fod ymddygiad Cynghorydd X wedi dwyn anfri ar swydd y cynghorydd ac ar ei awdurdod.

Deuthum i'r casgliad y dylai'r materion a oedd yn ymwneud â Chynghorydd X a oedd yn rhan o'r ymchwiliad gael eu cyfeirio i sylw Llywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys.

## Dau aelod o gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Derbyniais honiad gan gynghorydd yn erbyn aelod arall o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Sail yr honiad oedd nad oedd y Cynghorydd dan sylw, a oedd yn Arweinydd y Cyngor ac yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol, wedi datgan buddiant mewn modd priodol mewn mater a ddaeth gerbron y Bwrdd ar gyfer penderfyniad, nac wedi ymatal rhag ystyried y mater.

Ar sail y wybodaeth a oedd ger fy mron deuthum i'r casgliad bod y Cynghorydd dan sylw wedi torri cod ymddygiad y Cyngor, drwy beidio â datgan buddiant personol dan baragraff 11 o'r cod, a pheidio â gadael cyfarfod y Bwrdd Gweithredol pan oedd cynnig i ad-drefnu ysgolion yn ardal Rhos, ger Wrecsam yn cael ei drafod. Deallaf fod y Cynghorydd dan sylw wedi cael cyngor gan y Swyddog Monitro, ac mai'r cyngor hwnnw oedd, gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater, y gallai aros yn y cyfarfod, y gallai siarad ond na allai bleidleisio. Fodd bynnag, rhoddwyd y cyngor hwn ar sail ei fuddiant fel llywodraethwr ysgolion yr oedd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt, buddiant a oedd yn dod dan baragraff 12 o'r cod. Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd yn ymwybodol ar yr adeg y rhoddodd y cyngor bod meibion y Cynghorydd yn mynychu un o'r ysgolion y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt. Ni all Swyddog Monitro roi cyngor priodol i aelod onid yw'r aelod hwnnw'n rhoi'r holl ffeithiau perthnasol iddo. Deuthum i'r casgliad y byddai'n rhesymol disgwyl i'r cynghorydd fod wedi ystyried bod ganddo fuddiant arall yr oedd angen iddo ei ddatgan fel tad i blant a oedd yn mynychu ysgol y byddai'r cynigion yn effeithio arni.

Deuthum i'r casgliad dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 y dylid cyfeirio fy adroddiad ar yr ymchwiliad hwn i sylw Swyddog Monitro'r Cyngor, i gael ei ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Derbyniais honiad hefyd fod Cynghorydd arall a oedd yn aelod o Fwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi torri'r cod ymddygiad mewn perthynas â chynnig i ad-drefnu ysgolion yn ardal y Rhos. Derbyniodd y Cynghorydd hwnnw gyngor gan y swyddog monitro drwy'r Arweinydd yn nodi gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater y gallai aros yn y cyfarfod, y gallai siarad ond na allai bleidleisio. Fodd bynnag, rhoddwyd y cyngor hwn ar y sail ei fod yn llywodraethwr ysgolion yr oedd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt, buddiant a oedd yn dod dan baragraff 12 o'r cod. Ni ddywedodd y Cynghorydd dan sylw wrth y Swyddog Monitro fod ganddo wyrion yn un o'r ysgolion. Byddai'n rhesymol disgwyl y byddai'r Cynghorydd wedi ystyried bod ganddo fuddiant arall yr oedd angen iddo ei ddatgan, fel taid i blant a oedd yn mynychu un o'r ysgolion y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt.

Deuthum i'r casgliad dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 y dylid cyfeirio fy adroddiad ar yr ymchwiliad hwn i sylw Swyddog Monitro'r Cyngor, i gael ei ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

## Aelod o Gyngor Cymuned Clydach

Derbyniais honiad gan berchennog siop yn erbyn aelod o Gyngor Cymuned Clydach. Roedd perchennog y siop yn honni bod y cynghorydd wedi gweithredu'n groes i ddarpariaethau Cod Ymddygiad y Cyngor gan fod ei ymddygiad yn ei siop hi ar ddau ddyddiad gwahanol yn dwyn anfri ar swydd y cynghorydd oherwydd ei agwedd ymosodol tuag ati hi a dau aelod o'i staff. Yn ychwanegol at hyn, roedd wedi ceisio cael gostyngiad amhriodol ar bryniant preifat drwy geisio dweud ei fod yn bryniant ar ran y Cyngor Cymuned; ac roedd wedi gwneud bygythiadau yn erbyn ei busnes pan wrthodwyd hyn.

Roedd y dystiolaeth yn y datganiadau a wnaethpwyd gan berchennog y siop a'i staff ar y naill law, a chan y cynghorydd ar y llaw arall, ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd yn ystod ymweliadau'r cynghorydd â'r siop yn amlwg yn wahanol. Roedd aelodau o deulu'r cynghorydd yn y siop gydag ef pan wnaeth yr ymweliadau hyn, ond roedd yn gyndyn i'w cynnwys fel tystion am resymau teuluol personol. Roedd rhaid imi felly ystyried gair y cynghorydd ei hun yn erbyn adroddiadau clir a chyson gan berchennog y siop a'r tri aelod o'i staff a oedd yn bresennol ar ryw adeg neu'i gilydd.

Cadarnhaodd perchennog y siop a phob un o'i staff fod y pryniant wedi ei gyfleu fel pryniant ar ran y Cyngor Cymuned a bod yr holl drafodaethau dilynol ynglŷn â gostyngiad yn seiliedig ar y pwynt hwn. Dywedodd pob un hefyd, fel pobl sydd wedi arfer delio gydag aelodau o'r cyhoedd, fod ymddygiad y Cynghorydd yn annerbyniol yn ystod y ddau ymweliad. Ni welais unrhyw reswm dros gredu y byddai perchennog y siop na'i staff wedi ffugio'u stori, ac roedd eu tystiolaeth hwy yn sicr yn swnio'n fwy dibynadwy na thystiolaeth y cynghorydd dan sylw. Roedd y dystiolaeth ddogfennol hefyd yn nodi bod y pryniant wedi ei gam-gyfleu gan y cynghorydd.

Deuthum i'r casgliad, dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, y dylid cyfeirio fy adroddiad i sylw Llywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys.

## Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Derbyniodd fy rhagflaenydd honiad bod cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad yr Awdurdod. Honnid ei fod yn Chwefror 2002 heb ddatgan buddiant fel cyfarwyddwr cwmni datblygu mewn cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y cydgynllun datblygu unedol ar gyfer Sir Benfro a oedd yn ymwneud â dyrannu tir ar gyfer datblygu tai a'i fod wedi cymryd rhan mewn trafodaethau, ac wedi pleidleisio, ar y mater. Gan fod yr heddlu'n ymchwilio i'r mater terfynwyd ymchwiliad yr Ombwdsmon. Ar ôl i'r heddlu gwblhau eu hymholiadau, darparodd yr achwynydd dystiolaeth newydd ac ail-agorwyd yr ymchwiliad.

Roedd y cynghorydd yn berchen ar ddarn sylweddol iawn o dir o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol, a hefyd yn berchen ar gwmni gyda "datblygu" yn ei deitl, ac fel ei brif weithgaredd busnes cofrestredig. Ni chefais fy argyhoeddi gan ei hawliad nad oedd ganddo unrhyw ddatblygiad mewn golwg yn Chwefror 2002, a minnau wedi canfod tystiolaeth bod ganddo ddatblygiad mewn golwg ar yr un safle ym Mehefin 2001 ac yng Ngorffennaf 2004.

Beth bynnag oedd y rhesymau a roddodd y cynghorydd dros wrthwynebu'r polisi arfaethedig, roedd y penderfyniad yn ymwneud â pholisi a allai effeithio ar werth y tir a oedd yn ei feddiant. Byddai'n rhesymol ystyried nad oedd y polisi arfaethedig yn debygol o fod o fantais iddo ef. Ni ddatganodd fuddiant, a siaradodd a phleidleisiodd ar y polisi, gan dorri'r cod. Deuthum i'r casgliad, dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, y dylid cyfeirio fy adroddiad i sylw Llywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys.

## Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Derbyniais honiad gan Mrs Y fod cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Aelodau, pan ysgrifennodd lythyr i'r llys. Darllenwyd y llythyr mewn achos llys teulu yn ymwneud â threfniadau i gael gweld wyrion yr achwynydd. Roedd y llythyr yn nodi bod y cynghorydd yn frawd i Mr X, a oedd yn gysylltiedig â'r achos. Roedd y cynghorydd yn nodi yn y llythyr ei fod yn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol ac yn Gynghorydd Cymuned ac roedd wedi arwyddo'r llythyr felly.

Roedd Mrs Y yn honni bod y cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad, gan ei fod wedi defnyddio ei swydd yn amhriodol er mwyn sicrhau mantais i aelod o'i deulu.

Daeth yr honiad hwn gan Mrs Y ar ben honiad arall, a mwy difrifol yn fy marn i, yn erbyn y cynghorydd dan sylw, a dderbyniais gan un o'i etholwyr, sef Mrs Z. Roedd Mrs Z yn honni bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor pan anfonodd gyfres o negeseuon post electronig (e-byst) ati mewn ymateb i gŵyn yr oedd wedi ei hanfon ato. Honnai Mrs Y fod naws a chynnwys y negeseuon e-bost yn groes i baragraff 4(a) o'r Cod Ymddygiad, a oedd yn nodi y dylai aelodau ddangos parch ac ystyriaeth o bobl eraill. Roedd hefyd yn honni bod y cynghorydd wedi gweithredu'n groes i baragraff 6.1(b), gan y byddai'n rhesymol ystyried bod ei ymddygiad yn dwyn anfri ar swydd yr Aelod neu ar yr Awdurdod.

Penderfynais ymchwilio i'r ddau honiad gyda'i gilydd, ac ymdriniwyd â'r ddau mewn un cyfweliad gyda'r cynghorydd. Yn ystod fy ymchwiliadau i'r honiadau gan Mrs Y a Mrs Z, hysbyswyd fy swyddog ymchwilio fod y cynghorydd wedi ei gael yn euog o dramgwydd troseddol yn Awst 2004. Cysylltwyd â Heddlu De Cymru i wneud ymholiadau, a chadarnhaodd yr heddlu fod y cynghorydd wedi ei gael yn euog o yrru gyda gormod o alcohol yn ei gorff yn 2004. Mae aelod yn torri'r Cod Ymddygiad drwy gyflawni tramgwydd troseddol.

O ran honiad Mrs Y, deuthum i'r casgliad, yn unol â'r honiad, bod y cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Credais fod y ddau e-bost cyntaf a anfonwyd gan y cynghorydd at Mrs Z yn dderbyniol. Fodd bynnag, roedd newid syfrdanol yn naws trydydd e-bost y cynghorydd, a oedd wedi ei anfon yn hwyr yn y nos. Dywedodd y cynghorydd ei fod wedi derbyn e-byst eraill yn ystod y cyfnod cyn iddo anfon ei drydydd e-bost, ac mai'r negeseuon hynny oedd wedi peri iddo ymateb yn y modd hwnnw. Fodd bynnag, nid oedd y cynghorydd wedi darparu unrhyw dystiolaeth o e-byst eraill o'r fath. Dywedodd Mrs Z nad oedd wedi ymateb i'w e-byst o gwbl. Roedd tystiolaeth Mrs Z yn swnio'n fwy dibynadwy nag un y Cynghorydd ar y pwynt hwn. Roedd y cynghorydd yn derbyn bod ei drydydd e-bost yn ymosodol ac yn peri tramgwydd i Mrs Z.

Rhoddais sylw wedyn i fater ail gollfarn y cynghorydd yn 2004 am yfed a gyrru. Roedd y cynghorydd wedi ceisio dweud bod y gollfarn hon yn ymwneud â throseddau traffig ac nad oedd yn fater troseddol. Roedd wedi ei gamarwain. Mae collfarn gan lys yr ynadon am yrru â gormod o alcohol yn dramgwydd troseddol ac roedd y ddedfryd a roddwyd yn adlewyrchu pa mor ddifrifol oedd y mater ym marn y llys.


Deuthum i'r casgliad, dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, y dylid cyfeirio'r materion hyn i sylw Llywydd Panel Dyfarnu Cymru, ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys.

# 5 Adroddiad Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru

Fel Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, rwy'n ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd sy'n teimlo eu bod wedi dioddef oherwydd triniaeth neu wasanaeth anfoddhaol a ddarparwyd gan, neu ar ran, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, gan gynnwys meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr neu optegwyr.  Gallaf hefyd ystyried cwynion yn ymwneud â methiant, a beirniadu gweithredoedd a phenderfyniadau staff clinigol, lle bo'n briodol, heb orfod ystyried a oes achos o gamweinyddu. Byddaf fel rheol yn cael cymorth ymgynghorwyr proffesiynol priodol wrth ystyried cwynion sydd ag elfen glinigol (sef y mwyafrif helaeth o'r achosion). Mae panel o ymgynghorwyr ar gyfer Cymru a Lloegr, a rhennir y costau'n fel sy'n briodol drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Lloegr.

## 5.1 Trosolwg ac Ystadegau

Fel y dengys y siart isod, roedd y rhan fwyaf o'r cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â gwasanaethau iechyd teulu ac ysbytai. Sylwn, fodd bynnag, fod achosion gofal parhaus ynddynt eu hunain yn gyfrifol am 20% o'r llwyth achosion iechyd, ac rwy'n rhoi sylw penodol i'r mater hwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.



Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn rhoi rhagor o fanylion am y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Byrddau Iechyd Lleol unigol, Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru, ynghyd â gwybodaeth am gwynion yn erbyn meddygon teulu, deintyddion ac yn y blaen. Fel y gwelir, cyhoeddais 27 adroddiad yn cyfiawnhau'r gŵyn a gyflwynwyd i mi a 13 lle na chyfiawnhawyd y gŵyn. Dan y ddeddfwriaeth a oedd mewn grym yn 2004/05, ni allaf wneud yr adroddiadau hyn yn gyhoeddus.

## Byrddau Iechyd Lleol

| Bwrdd Iechyd Lleol | Cyfanswm y Cwynion (dygwyd ymlaen a newydd yn y flwyddyn) | Tu hwnt i awdurdodaeth | Cynamserol | Terfynwyd | Setliad (buan) | Setliad | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn yn ddilys | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn ddim yn ddilys | Remaining Open as at 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 1 | | 1 | | | | | | |
| Blaenau | 3 | | 2 | | | | 1 | | |
| Bro Morgannwg | 4 | | | 1 | | 2 | | | 1 |
| Caerdydd | 4 | | | 1 | 1 | 1 | 1 | | |
| Caerfyrddin | 2 | | | 1 | | | | 1 | |
| Caerffili | 1 | | | 1 | | | | | |
| Casnewydd | 6 | | | 1 | | | 2 | | 3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 | | 1 | | | | | | 1 |
| Ceredigion | 1 | | | 1 | | | | | |
| Conwy | 5 | | 1 | 1 | | | 1 | 2 | |
| Gwynedd | 1 | | | | | | | | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | | | | | | 1 | | |
| Powys* | 38 | 1 | 1 | 7 | | 8 | 4 | 6 | 11 |
| Rhondda Cynon Taf | 5 | | | | | 3 | 1 | | 1 |
| Sir Benfro | 2 | | 1 | | | | | | 1 |
| Sir Ddinbych | 1 | | | | | | | | 1 |
| Sir Fynwy | 3 | | 2 | | | 1 | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 1 | | | | | 1 | | | |
| Sir y Fflint | 3 | | 1 | | | | | 1 | 1 |
| Torfaen | 1 | | | | | | | | 1 |
| Wrecsam | 2 | | | 1 | | | | | 1 |
| Ynys Môn | 1 | 1 | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | 88 | 2 | 10 | 15 | 1 | 16 | 11 | 10 | 23 |

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Powys hefyd yn gyfrifol am y Panel Gofal Parhaus Cymru Gyfan (gweler tudalen 46 am wybodaeth pellach)

| Ymddiriedolaethau'r GIG | Cyfanswm y Cwynion (dygwyd ymlaen a newydd yn y flwyddyn) | Tu hwnt i awdurdodaeth | Cynamserol | Terfynwyd | Setliad (buan) | Setliad | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn yn ddilys | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn ddim yn ddilys | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 18 | 1 | 8 | 1 | | | 3 | | 5 |
| Bro Morgannwg | 8 | | 3 | 2 | | 3 | 1 | | 2 |
| Caerdydd a'r Fro | 27 | 1 | 10 | 4 | | | 4 | | 5 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 2 | | | | | 1 | | | 2 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 13 | 1 | 4 | 1 | | | 2 | | 4 |
| Felindre | 1 | 1 | | | | 1 | | | |
| Gofal Iechyd Gwent | 20 | 1 | 3 | 4 | | 1 | 4 | 1 | 6 |
| Gogledd Morgannwg | 7 | | 2 | 2 | | 1 | 1 | | 1 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | 12 | 1 | 1 | 1 | | | 1 | 1 | 6 |
| Gogledd-orllewin Cymru | 9 | | 2 | 1 | | 1 | | | 6 |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 2 | | | | | | | 1 | |
| Pontypridd a Rhondda | 3 | | 1 | 1 | | | | | 1 |
| Sir Benfro a Derwen | 11 | 2 | 1 | 6 | | | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 6 | | 1 | | 1 | | | | 4 |
| **CYFANSWM** | **139** | **8** | **36** | **23** | **1** | **8** | **16** | **3** | **44** |

## Meddygon Teulu a Gwasanaethau Iechyd Eraill

| Awdurdod | Cyfanswm y Cwynion (dygwyd ymlaen a newydd yn y flwyddyn) | Tu hwnt i awdurdodaeth | Cynamserol | Terfynwyd | Setliad | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn yn ddilys | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn ddim yn ddilys | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meddyg Teulu/Practis Meddygon Teulu | 33 | 2 | 9 | 7 | 1 | 5 | | 9 |
| Deintydd | 1 | | | | | | | 1 |
| Gwasanaeth y tu allan i oriau – Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 1 | | 1 | | | | | |
| Gwasanaeth y tu allan i oriau - Primecare | 1 | | | | | | | 1 |
| Canolfan Iechyd Panteg | 1 | | | | | | | 1 |
| Cartref Nyrsio St Dunstons | 1 | 1 | | | | | | |

## 5.2 Materion o Ddiddordeb Arbennig: Gofal Tymor Hir

Roedd adroddiad blynyddol y llynedd yn cyfeirio at fy mhryder ynglŷn â nifer y cwynion a dderbyniais mewn perthynas â gofal tymor hir. Adroddais am y gwaith a wnaethpwyd gan fy swyddfa mewn perthynas â'r mater hwn. Nodais fod panel adolygu gofal parhaus Cymru gyfan wedi ei sefydlu yn gynnar yn 2004 gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys (a oedd wedi etifeddu ymrwymiadau'r hen awdurdodau iechyd lleol yn sgil ad-drefnu'r GIG) i wrando ar hawliadau am ad-daliadau ar gyfer achosion cyn 1 Ebrill 2003.

Adroddais y llynedd hefyd fy mod wedi dechrau derbyn cwynion gan rai achwynwyr yn mynegi pryder ynglŷn â'r ffordd yr oedd proses yr Adolygiad Arbennig ei hun yn cael ei chynnal, ac y byddwn felly'n edrych yn fanylach ar y mater hwn yn ystod 2005/06. Yr wyf wedi gwneud, hyn a daeth nifer o faterion cyffredin sy'n peri pryder i'r amlwg ynglŷn â gweithrediad panel adolygu gofal parhaus Cymru gyfan. Yn fyr, roedd y rhain yn ymwneud â diffyg eglurhad o benderfyniad y panel; cofnodion sy'n cael eu rhyddhau ar gyfer ystyriaeth gan y panel ddim ar gael i'r ymgeiswyr; a'r meini prawf cymhwyster a ddefnyddir gan y panel.

Cyfarfûm â Phrif Weithredwr BILl Powys yn Hydref 2005 a chytunasom ar y gwelliannau isod i'r gweithdrefnau:

- Byddai'r llythyr a anfonir at hawlwyr gan gadeiryddion paneli Cymru gyfan yn eu hysbysu o benderfyniad y panel yn y dyfodol gan roi rhesymau penodol pam bod y penderfyniad arbennig wedi ei wneud ym mhob achos.
- Er na fydd pob ymgeisydd eisiau gweld y cofnodion sy'n cael eu hystyried gan y panel, cytunodd BILl Powys y byddai ymgeiswyr yn cael eu hysbysu gyfnod rhesymol cyn gwrandawiad y panel y gallant ofyn am gopi o'r cofnodion os dymunant, ac y bydd y copi hwn yn cael ei ddarparu iddynt os byddant yn gwneud hynny.
- Byddai BILl Powys yn anfon dogfennau allweddol at aelodau'r panel ymlaen llaw. Byddai'r rhannau o'r dystiolaeth sydd i'w hystyried gan y panel, a'u rhesymau dros wneud hynny, wedi eu nodi'n glir.

- Byddai BILl Powys yn ysgrifennu canllawiau manwl ychwanegol ar gyfer aelodau'r panel ynglŷn â'r angen i nodi a chymhwyso gwersi dyfarniad Llys Apêl 1999 – y cyfeirir ato fel dyfarniad Coughlan – ym mhob achos a gyflwynir iddynt. Roedd hyn er mwyn atal y posibilrwydd y byddai'r meini prawf cymhwyster yn cael eu cymhwyso'n rhy llym pe na bai'r newidiadau a wneid i feini prawf yr Awdurdodau Iechyd blaenorol yn dilyn Dyfarniad Coughlan yn cael eu nodi'n glir wrth y person a fyddai'n eu gweithredu. Dylai'r canllawiau hyn sicrhau fframwaith cyfeirio cyffredin drwy Gymru. Addawodd BILl Powys y byddai'n anfon copi o'r fersiwn drafft o'r canllawiau hyn i'm swyddfa i er mwyn cael sylwadau arno cyn ei gyhoeddi.

Rwy'n falch o ddweud bod pob un o'r camau hyn wedi eu gweithredu erbyn hyn.

## 5.3 Crynodebau o achosion enghreifftiol

### Bwrdd Iechyd Lleol Powys a Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd: Gofal Parhaus

Cwynodd Mr D wrthyf am y penderfyniadau a wnaethpwyd mewn perthynas â hawl ei ddiweddar fam i ofal parhaus. Canfuwyd bod diweddar fam Mr D, sef Mrs D, yn dioddef o'r clefyd Alzheimer yn Chwefror 2000, ac fe'i derbyniwyd i'r ysbyty ym Mai 2001. Tra yn yr ysbyty, daeth y clinigwyr a fu'n ymwneud â'r achos i'r casgliad, oherwydd ei dementia, na fyddai'n ddiogel iddi ddychwelyd i'w chartref, ac anfonwyd Mrs D i gartref preswyl ar gyfer henoed bregus eu meddwl ym Mehefin 2001. Bu yn y cartref hwn hyd nes y derbyniwyd hi i ail ysbyty yn Hydref 2003, a bu yn yr ysbyty hwnnw hyd nes y bu farw yn Ionawr 2004.

Yn dilyn adroddiad arbennig a gyhoeddwyd yn Chwefror 2003 gan Ombwdsmon Gwasanaeth Iechyd Lloegr ynglŷn ag arian dan y GIG ar gyfer gofal tymor hir (y cyfeirir ato fel rheol fel "arian gofal parhaus"), dechreuodd Mr D bryderu nad oedd yr awdurdodau wedi barnu bod ei fam yn gymwys ar gyfer arian gofal parhaus dan y GIG, a chyflwynodd gŵyn i Awdurdod Iechyd blaenorol Gwent ym Mawrth 2003. Ei ddadl ef oedd bod gan ei fam "angen yn gysylltiedig ag iechyd" gan ei bod yn dioddef o glefyd Alzheimer, a bod ganddi felly hawl i ddisgwyl i'r GIG dalu am bob gofal iddi. Dadleuodd hefyd fod meini prawf yr Awdurdod Iechyd ar gyfer asesu a oedd unigolion yn gymwys ar gyfer arian dan y GIG yn anghyfreithlon. Roedd Mr D yn anfodlon ag ymateb yr Awdurdod Iechyd a gofynnodd am adolygiad annibynnol o'i gŵyn. Yn dilyn cyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gohiriwyd proses yr adolygiad

annibynnol yn Hydref 2003 a chyfeiriwyd y gŵyn yn ôl i sylw BILl Casnewydd (fel y corff a olynodd yr Awdurdod Iechyd). Yn gynnar yn 2004, sefydlwyd panel adolygu gofal parhaus Cymru gyfan (panel Cymru gyfan) gan BILl Powys (a oedd wedi etifeddu ymrwymiadau'r hen awdurdodau iechyd yn sgil ad-drefnu'r GIG) i wrando hawliadau am ad-daliadau ar gyfer achosion cyn 1 Ebrill 2003.

Gwrandawodd panel Cymru gyfan ar hawliad Mr D yn Chwefror 2005. Gwrth-drodd y panel argymhelliad a wnaethpwyd gan BILl Casnewydd nad oedd Mrs D wedi bod yn gymwys o gwbl am arian dan y GIG, a dyfarnwyd ad-daliad am y cyfnod Mawrth-Hydref 2003 (hyd at yr amser yr aeth Mrs D i'r ysbyty). Roedd Mr D yn anfodlon bod y panel wedi penderfynu mai dim ond am ran o'r cyfnod yr oedd ef yn ei hawlio yr oedd ei fam yn gymwys i dderbyn arian. Credai fod yr ymchwiliad i'r achos gan BILl Casnewydd yn annigonol, ac, o ganlyniad, bod eu hargymhelliad i'r panel yn ddiffygiol. Roedd Mr D yn cwyno, hefyd, na ofynnodd BILl Casnewydd am unrhyw wybodaeth gan deulu Mrs D yn ystod yr ymchwiliad i'w hawliad am ad-daliad. Roedd hefyd yn cwyno bod ystyriaeth y panel o'r achos yn annigonol; nododd yn fwyaf arbennig na chafodd yr holl wybodaeth berthnasol ei hystyried, ac nad oedd y panel wedi rhoi eglurhad digonol o'r rheswm pam nad oedd Mrs D yn gymwys i dderbyn arian dan y GIG ar gyfer y cyfnod cyn Mawrth 2003.

Deuthum i'r casgliad nad oedd BILl Casnewydd wedi gofyn yn uniongyrchol am farn Mr D yn ystod yr ymchwiliad i'w hawliad; fodd bynnag, roedd wedi mynegi ei farn yn glir fwy nag unwaith mewn gohebiaeth iddynt. Roedd hefyd wedi cyflwyno sylwadau manwl i'r panel yn rhoi gwybodaeth am ei hawliad. Deuthum i'r casgliad, er eu bod wedi cael bron i ddwy flynedd i wneud hynny, nad oedd BILl Casnewydd wedi cael, nac wedi gweld, copïau o gofnodion y cartref preswyl hyd y diwrnod cyn gwrandawiad y panel. O ganlyniad, nid oedd argymhelliad y BILl i'r panel yn cyfeirio at y rhain. Dim ond copïau o gofnodion y cartref ar gyfer y cyfnod o Hydref 2002 tan y tro diwethaf i Mrs D gael ei derbyn i'r ysbyty a gafwyd gan BILl Casnewydd ar gyfer eu hystyried gan y panel.

Deuthum i'r casgliad fod y panel, wrth wrthdroi argymhelliad BILl Casnewydd, wedi dibynnu llawer iawn ar y wybodaeth a oedd yng nghofnodion y cartref preswyl. Yr oeddwn yn bryderus, o ganlyniad, nad oedd y panel wedi gweld, nac wedi gofyn am gael gweld, y cofnod llawn cyn gwneud ei benderfyniad.

Yr oeddwn yn bryderus, hefyd, fod yr eglurhad a roddwyd i Mr D yn annigonol, ac yn golygu ei fod wedi gorfod gofyn i ysgrifenyddiaeth y panel am eglurhad.

Fel yn achos cwynion eraill a gyflwynwyd ynglŷn â gweithrediad panel Cymru gyfan, roeddwn yn bryderus hefyd nad oedd Mr D wedi cael cyfle i gael copi o'r cofnodion a gafwyd i'w hystyried gan y panel cyn y gwrandawiad, ac nad oedd yr holl gofnodion wedi eu darparu i aelodau'r panel ymlaen llaw. Roeddwn yn bryderus hefyd y gallai'r meini prawf cymhwyster a ddefnyddiwyd gan y panel i asesu a oedd Mrs D yn gymwys i dderbyn arian gofal parhaus gael eu dehongli mewn modd rhy gyfyngus.

Deuthum i'r casgliad bod BILl Casnewydd yn euog o gamweinyddu gan nad oeddent wedi cael gafael ar yr holl gofnodion yr oedd eu hangen er mwyn eu galluogi i wneud argymhelliad pendant i'r panel. Nid oeddwn yn teimlo bod gweithredoedd y BILl yn afresymol o ran gofyn am wybodaeth gan Mr D, gan fod Mr D wedi cael cyfle i gyflwyno'i achos i'r panel. Fodd bynnag, roeddwn yn teimlo y byddai'n ddoeth o bosib i'r BILl adolygu ei ddulliau gweithredu er mwyn canfod ffyrdd gwell o fynegi barn hawlwyr a/neu eu cynrychiolwyr yn eu hadroddiadau i'r panel.

Deuthum i'r casgliad, hefyd, fod BILl Powys yn euog o gamweinyddu gan nad oedd y panel wedi gofyn am gael gweld gweddill cofnodion y cartref gofal cyn gwneud ei benderfyniad. Teimlwn y byddai wedi bod yn anodd i'r panel fod wedi gallu dweud yn bendant a oedd Mrs D yn gymwys ar gyfer y cyfnod cynharach a hawlid gan Mr D ai peidio heb weld y cofnodion i gyd. Beirniadais hefyd safon yr eglurhad cychwynnol a roddwyd i Mr D am benderfyniad y panel nad oedd yn teimlo ei fod yn ddigon manwl i alluogi Mr D i ddeall pam bod y panel wedi dod i'r casgliadau hynny.

Ar fy argymhelliad, cytunodd BILl Powys i gynnal panel newydd i ailwrando achos Mrs D. Cytunasant i sicrhau bod yr holl gofnodion perthnasol ar gael i'w hystyried gan y panel, ac i roi eglurhad llawn o benderfyniad y panel i Mr D.

Argymhellais hefyd y dylai BILl Casnewydd sicrhau yn y dyfodol eu bod yn cael gafael ar yr holl gofnodion perthnasol wrth ymchwilio i hawliadau am arian gofal parhaus.

5

## Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf: Gofal Parhaus

Cafodd tad Mr A, sef Mr B, ei dderbyn i gartref gofal yn 2001 yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty. Roedd yn dioddef o glefyd Alzheimer. Roedd yn talu am ei ofal ei hun. Yn 2003 daeth Mr A yn ymwybodol o adroddiad arbennig Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd ar ofal parhaus. Teimlai fod gan ei dad hawl i dderbyn arian oherwydd ei anghenion iechyd ac, o ganlyniad, cyflwynodd gŵyn i Fwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf yn Ebrill 2003. Ni chwblhawyd asesiad gofal parhaus llawn hyd y flwyddyn ddilynol, a barnwyd nad oedd Mr B yn gymwys i dderbyn arian. Cadarnhawyd y farn hon gan Banel Adolygu Arbennig Cymru Gyfan yn Nhachwedd 2004. Roedd Mr A yn dal i fod yn anfodlon, a chyflwynodd gŵyn i mi ynglŷn â'r oedi gormodol a'r ffaith ei fod yn teimlo bod y meini prawf cymhwyster wedi eu cymhwyso'n rhy llym yn achos ei dad. Cwynodd hefyd ynglŷn â rhai o brosesau gwrandawiad y panel, yn fwyaf arbennig, nad oedd modd cael cynrychiolydd cyfreithiol yn y gwrandawiad, nad oedd digon o amser wedi ei neilltuo ac na fyddai'r panel wedi cael digon o amser i ystyried hanes meddygol Mr B am bron i 4 blynedd.

Deuthum i'r casgliad ei bod yn amhosib dweud a oedd y meini prawf cymhwyster wedi eu cymhwyso'n rhy llym gan nad oedd yr asesiad yn rhoi manylion am anghenion Mr B o gymharu â'r meini prawf, ac ni chyflwynwyd unrhyw sail resymegol yn nodi sut y penderfynwyd ei fod yn anghymwys. Roedd y llythyr am y penderfyniad yn annigonol gan nad oedd yn cynnwys unrhyw resymau ynglŷn â sut y gwnaethpwyd y penderfyniad.

O ran y broses, canfûm nad oedd yr holl bapurau wedi eu cyflwyno i'r panel, ac nad oeddent wedi eu cyflwyno i'r hawlydd ymlaen llaw ychwaith. Roeddwn yn fodlon bod system y panel wedi ei sefydlu ar sail anwrthwynebus fel nad oedd angen i hawlwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol. Ni fyddai caniatáu cynrychiolaeth gyfreithiol o unrhyw fudd i hawlwyr. O ran yr amser a ganiatawyd ar gyfer y gwrandawiad, gan na chofnodir amseroedd dechrau a gorffen gwrandawiadau, roedd yn amhosib dod i gasgliad ar y mater hwn. Rwy'n argymell newidiadau trefniadol i broses y panel, er fy mod yn sylweddoli wrth wneud yr argymhelliad hwn bod sylw wedi ei roi i nifer o'r pwyntiau hyn yn barod gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys yn dilyn fy nghyfarfod gyda'r Prif Weithredwr. Argymhellais y dylid cynnal panel newydd gyda'r holl ddogfennau perthnasol er mwyn ystyried achos Mr B. Argymhellais hefyd y dylai asesiadau a wneir yn y dyfodol gan Fwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf nodi'n glir ar sail pa feini prawf y mae'r claf yn cael ei asesu ac ar ba sail y gwnaethpwyd y penderfyniad ynglŷn â chymhwyster.

Wrth wneud yr argymhellion hyn, ni wneuthum ddyfarniad ynglŷn â chymhwyster Mr B ar gyfer gofal iechyd parhaus yn cael ei ariannu gan y GIG, dim ond am y broses a ddilynwyd er mwyn gwneud y penderfyniad.

Cytunodd Byrddau Iechyd Lleol Powys a Rhondda Cynon Taf i weithredu'r argymhellion.

## Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro: Iechyd Meddwl

Yn dilyn cyfnod gorffwyll, derbyniwyd Mr A i Ysbyty'r Eglwys Newydd ar 11 Medi 2001 dan Adran 2 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Roedd Mr A, a oedd ag anhwylder deubegwn, yn gweld lledrithiau ac yn meddwl ei fod yn berson adnabyddus drwy'r wlad ac y byddai'n gyfoethog iawn cyn bo hir. Ar 27 Medi, cadarnhawyd y dylai gael ei gadw yn yr ysbyty yn unol ag Adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Ar y pryd roedd Mr A yn cael ei gadw mewn ward a oedd wedi ei chloi. Ar 5 Hydref caniatawyd i Mr A fynd o'r ysbyty, dan ofal nyrs gynorthwyol, er mwyn tynnu arian o'r peiriant arian yn ei fanc lleol. Fodd bynnag, tra yn y banc trefnodd fenthyciad o £2000. Yn ddiweddarach, tra'r oedd dan ofal seiciatrydd ymgynghorol yn yr ysbyty, trefnodd gyfleusterau credyd eraill. Y mis dilynol, cafodd mam Mr A alwad ffôn ganddo, o glwb nos lleol. Siaradodd Mrs A yn ddiweddarach â'r Seiciatrydd Ymgynghorol (yr Ymgynghorydd) a oedd yn gyfrifol am ofal Mr A a dywedodd wrtho ei bod yn bryderus bod Mr A yn cael mynd allan ac yntau'n dal i fod yn sâl. Ar 30 Tachwedd gwrthododd Tribiwnlys Iechyd Meddwl ryddhau Mr A oherwydd 'anhwylder emosiynol deubegwn sy'n cael ei amlygu gan ... gynlluniau mawreddog, afrealistig'. Dywedodd y Tribiwnlys hefyd mai 'dim ond yn ddiweddar iawn y cyflwynwyd cyfnodau allan o'r ysbyty ac mae angen profi'r cyfnodau hyn a'u cynyddu'n raddol'. Yn ddiweddarach, canfu Mrs A fod ei mab wedi cael mynd adref i'w fflat i aros y nos heb oruchwyliaeth fwy nag unwaith, tra'r oedd yn dal i fod yn yr ysbyty. Ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty ar 8 Ionawr 2002, aeth Mr A i deimlo'n isel ac roedd rhaid iddo ddelio gyda chanlyniadau'r gorwariant sylweddol a diofal a oedd wedi digwydd tra'r oedd yn cael ei gadw yn yr ysbyty. Ni allai dalu'r dyledion a oedd wedi crynhoi, ac fe'i dyfarnwyd yn fethdalwr. Cwynodd Mrs A wrth yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â'i diffyg gofal am Mr A, a chan ei bod yn dal i fod yn anfodlon â'i hymateb, cwynodd wrthyf i.

# 5

Derbyniais gyngor gan bedwar asesydd proffesiynol ym maes nyrsio seiciatrig a meddygaeth seiciatrig. Mynegais bryder ynglŷn â'r ffaith y gellid caniatáu i sefyllfa godi lle bo claf sydd ag anhwylder meddyliol difrifol yn gallu cael benthyciad, yn bersonol mewn banc, tra'n cael ei hebrwng gan nyrs o ward ddiogel. Wedi dweud hynny, ni feirniadais weithredoedd y nyrs gynorthwyol yn y sefyllfa hon gan fod cyfweliadau gyda staff yr Ymddiriedolaeth wedi awgrymu eu bod yn ansicr iawn ynglŷn â'u hawl i ymyrryd mewn sefyllfa o'r fath ac, yn ychwanegol at hynny, nid oedd yn ymddangos bod gan yr Ymddiriedolaeth ganllawiau penodol i'r staff ar y pryd i'w galluogi i weithredu'n hyderus mewn sefyllfa o'r fath. Deuthum i'r casgliad fod y digwyddiad wedi cael ei ystyried yn briodol gan staff nyrsio ar ôl i Mr A ddychwelyd i'r ward a bod camau priodol wedi eu cymryd. Fodd bynnag, o ganlyniad i broblemau cyfathrebu, ni chafodd gwybodaeth am ymweliad Mr A â'r banc ei throsglwyddo i'r Ymgynghorydd a oedd yn gyfrifol am ofal Mr A. Deuthum i'r casgliad bod y diffyg cyfathrebu hwn a ddigwyddodd, er ei fod yn ddealladwy o ystyried y pwysau ar y ward, yn annerbyniol. Deuthum i'r casgliad ei bod yn amhosib penderfynu gydag unrhyw sicrwydd bod unrhyw unigolyn arbennig yn gyfrifol am y methiant i gyfathrebu.

Ystyriais hefyd amlder a hyd y cyfnodau allan o'r ysbyty a ganiatawyd i Mr A gan ei ymgynghorydd. Ystyriais y cyngor a roddwyd i mi gan fy Aseswyr Proffesiynol bod rheoli cyflwr meddyliol claf yn galw am gydbwysedd gofalus rhwng cyfyngu ar symudiadau claf er ei les ei hun a chaniatáu rhywfaint o ryddid i'r claf o amgylchedd sydd yn y bôn yn amgylchedd gwael ac anesmwyth a thrwy hynny sicrhau cydweithrediad ac ewyllys da'r claf. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod Mr A, a oedd dan ofal y seiciatrydd ymgynghorol, wedi cael caniatâd i adael yr ysbyty heb hebryngydd yn rheolaidd a bod y cyfnodau hyn yn digwydd yn amlach. Yn ystod y cyfnod hwn, deuthum i'r casgliad bod Mr A yn defnyddio'r adegau hyn fel cyfle i wario'n ddiofal, er ei fod yn amlwg yn dal i gael rhithdybiau, fel y dengys ei gofnodion meddygol a thystiolaeth arall.

Yn ôl fy Aseswyr Proffesiynol un o'r risgiau sy'n gysylltiedig â hypomania fel sydd gan Mr A yw mynd i ddyled ddifrifol o hyd ac o hyd o ganlyniad i wario'n fyrbwyll. Roeddwn yn cytuno â barn yr Aseswyr mai un o amcanion derbyn claf fel Mr A i ysbyty yw lleihau risg o'r fath. Roeddwn hefyd yn cytuno â barn fy Aseswyr na wnaethpwyd asesiadau risg priodol yn achos Mr A, ac na chymerwyd camau priodol

pan ddigwyddodd y gorwariant er mwyn ei atal. Roedd yr Aseswyr o'r farn fod methiant i gyfathrebu rhwng y nyrsys a'r staff meddygol, ac nad oedd y seiciatrydd ymgynghorol yn glir ynglŷn â'i bwerau i ymyrryd.

Roeddwn yn ymwybodol iawn o'r sylwadau a wnaethpwyd gan fy Aseswyr bod hyn yn digwydd mewn amgylchedd gwael lle'r oedd y staff dan bwysau: yn y cyd-destun hwnnw roedd y gofal a ddarparwyd i Mr A gan y staff yn dda ac roedd trefniadau ystyrlon ar gyfer rheoli salwch difrifol iawn. Mynegais gydymdeimlad mawr â staff yr Ymddiriedolaeth a chydnabûm eu hymroddiad i les y claf. Deuthum i'r casgliad, fodd bynnag, o ganlyniad i'r diffygion niferus a nodwyd, bod yr Ymddiriedolaeth wedi methu â rhoi i Mr A y gofal y gallai'n rhesymol fod wedi disgwyl ei dderbyn tra'n cael ei gadw fel claf yn yr ysbyty.

Cytunodd yr Ymddiriedolaeth i ddarparu rhagor o ganllawiau a hyfforddiant i'w staff ynglŷn â sut y dylent ddelio gyda materion ariannol yn ymwneud â'u cyfrifoldebau dan y Ddeddf Hawliau Dynol tuag at gleifion sy'n cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Cytunodd yr Ymddiriedolaeth hefyd i weithredu polisi gwell ar oruchwyliaeth glinigol; i egluro rôl y nyrs enwebedig sy'n gyfrifol am oruchwylio gofal y claf; i asesu amgylchiadau cymdeithasol claf yn briodol pan fo'n cael ei dderbyn i'r ysbyty a chyn ei ryddhau ac addasu ffurflenni caniatâd i adael yr ysbyty er mwyn caniatáu mwy o reolaeth dros symudiadau claf. Yn olaf, cytunodd yr Ymddiriedolaeth i ymddiheuro i Mr A ac i dalu £2000 iddo er mwyn gwneud iawn iddo am ei methiant i ofalu amdano.

## Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent a Chynulliad Cenedlaethol Cymru: Damweiniau ac Achosion Brys

Roedd Mrs A wedi cwyno bod ei thad, sef Mr B, wedi cael ei dderbyn i adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Gwent am 5.11am ar 5 Chwefror 2003 yn cwyno o boenau difrifol yn ei fol. Cafodd ei asesu gan uwch swyddog tŷ a'i gyfeirio i'r adran lawfeddygol. Adolygwyd Mr B gan uwch swyddog tŷ llawfeddygol am 6.30am, ond bu'n rhaid iddo aros yn yr adran damweiniau ac achosion brys gan nad oedd gwely ar gael ar gyfer llawdriniaeth. Daeth meddyg i'w weld wedyn am 5.15pm, ond ni sylwodd y meddyg hwn nad oedd Mr B wedi cael unrhyw beth i ladd y boen na hylif mewnwythiennol. Am 6.30pm, cymerwyd arsylwadau Mr B am y tro cyntaf er 12.30pm.

Ni weithredwyd ar sail yr arsylwadau hyn, er eu bod yn dangos bod pwysedd gwaed Mr B wedi gostwng a churiad ei galon wedi codi. Cymerwyd arsylwadau Mr B unwaith eto gan nyrs fwy profiadol am 8.00pm, a sylweddolodd y nyrs bryd hynny bod rhywbeth yn bod. Symudwyd Mr B i'r man dadebru a chafodd ei weld gan gofrestrydd llawfeddygol, a roddodd ddiagnosis o wlser wedi torri. Rhoddwyd llawdriniaeth iddo, ond dirywiodd cyflwr Mr B a bu farw, yn drist iawn, ar 7 Chwefror 2003.

Ysgrifennodd Mrs A ac aelodau eraill o'i theulu at Brif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth ar 24 Chwefror 2003 i gwyno am safon y gofal a dderbyniodd eu tad. Roedd Mrs A yn bryderus nad oedd wedi derbyn ymateb llawn i'w chŵyn hyd 22 Mai 2003, a bod oedi hefyd cyn delio gyda'i chais am gopi o gofnodion meddygol ei thad. Yn dilyn cyfarfod gyda chynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth, gofynnodd Mrs A am adolygiad annibynnol o'i chŵyn. Fodd bynnag, gwrthodwyd ei chais am banel, ar ôl rhagor o oedi ac ar ôl derbyn dau gyngor meddygol gwrthgyferbyniol.

Deuthum i'r casgliad bod safon y gofal a ddarparwyd i Mr B yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn llawer is na'r hyn y dylid ei ddisgwyl. Ni chafodd Mr B ei weld gan uwch lawfeddyg cyn 9.00pm gan fod methiant i gyfathrebu wedi golygu nad oedd wedi ei gynnwys ar y rownd wardiau arferol. Ni roddwyd manylion ar siartiau hylif a lleddfu poen, a methodd y staff nyrsio â sylwi a holi ynglŷn â hyn. Deuthum i'r casgliad bod safon y gofal nyrsio yn annerbyniol; ni chynhaliwyd arsylwadau'n rheolaidd, a phan gynhaliwyd hwy, ni weithredwyd ar sail y newidiadau. Nid oedd tystiolaeth i awgrymu bod y staff nyrsio wedi tynnu sylw'r tîm llawfeddygol at y ffaith fod Mr B yn dal i fod yn yr adran, nac wedi ceisio dod o hyd i wely iddo. Cyfiawnheais y gŵyn. Cydnabûm fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd y gŵyn hon o ddifrif a chroesewais y gwelliannau a wnaethpwyd. Fodd bynnag, gwneuthum nifer o argymhellion er mwyn sicrhau na fydd sefyllfa fel hon yn codi eto.

O ran y modd yr ymdriniwyd â chŵyn Mrs A, deuthum i'r casgliad bod oedi wedi bod cyn delio gyda'r gŵyn a bod trefniadau cyfathrebu'r Ymddiriedolaeth yn ddiffygiol. Yn ychwanegol at hyn, cymerodd cais Mrs A am gopi o gofnodion meddygol ei thad ddwywaith gymaint o amser ag y dylai fod wedi ei gymryd. Cyfiawnheais y gŵyn, ond ni wneuthum unrhyw argymhellion gan fod yr Ymddiriedolaeth eisoes wedi adolygu'r modd yr ymdriniodd â'r gŵyn ac wedi cyflwyno nifer o welliannau.

Cyfiawnheais hefyd gŵyn Mrs A ynglŷn â'i chais am adolygiad annibynnol. Er nad oedd penderfyniad yr Adolygydd Lleyg i beidio â chynnal panel yn seiliedig ar y ddau adroddiad meddygol gwrthgyferbyniol a dderbyniodd, deuthum i'r casgliad nad oedd wedi dilyn y canllawiau a bennwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol wrth wrthod cais Mrs A; nid oedd ychwaith wedi nodi'n glir wrth Mrs A beth oedd ei resymau dros beidio â chynnal panel. Argymhellais y dylai'r Adolygydd Lleyg a'r Cynghorydd Lleyg ymgyfarwyddo â'r rhannau perthnasol o ganllawiau'r Cynulliad, a sicrhau, hefyd, eu bod wrth ystyried achos yn ymwneud â gofal nyrsio, yn cael cyngor priodol o faes nyrsio.

## Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro: Ymarfer Clinigol

Yn 2002, cyhoeddodd fy rhagflaenydd adroddiad ar ymchwiliad i gŵyn gan Mrs B am sawl agwedd ar y gofal a'r driniaeth a dderbyniodd gan Nyrs Seiciatrig yn y Gymuned. Roedd yr adroddiad yn cyfiawnhau nifer o gwynion Mrs B, ond nid oedd yn cyfiawnhau cwyn bod y Nyrs, a oedd wedi gweld Mrs B fel claf am dros bum mlynedd, heb gadw'i rôl broffesiynol a'i rôl gymdeithasol ar wahân. Roedd Mrs B yn honni bod y Nyrs wedi ei hannog i gredu bod cyfeillgarwch yn bodoli rhyngddynt, ac y byddai'r cyfeillgarwch hwnnw'n parhau ar ôl iddi gael ei rhyddhau. Fodd bynnag, roedd y Nyrs wedyn wedi tynnu allan o'r cyfeillgarwch hwnnw'n ddirybudd. Roedd y Nyrs wedi gwadu'n bendant ei bod wedi arwain Mrs B i gredu bod cyfeillgarwch wedi bodoli rhyngddynt. Ni chyfiawnhawyd cwyn Mrs B, a hynny'n bennaf, gan nad oedd tystiolaeth i'r gwrthwyneb, gan fod adroddiad y Nyrs o'r hyn a ddigwyddodd yn swnio'n fwy credadwy na thystiolaeth Mrs B. Fodd bynnag, yn gynnar yn 2005, canfu Mrs B nifer o lythyrau a oedd wedi eu hysgrifennu â llaw iddi hi gan y Nyrs. Yr oedd wedi anghofio am y rhain yn ystod yr ymchwiliad gwreiddiol, a chyflwynodd hwy i mi fel tystiolaeth newydd i gefnogi ei chŵyn gyda chais i ailagor yr ymchwiliad. Roedd y llythyrau hyn wedi eu hysgrifennu at Mrs B ar ôl iddi gael ei rhyddhau o ofal y Nyrs. Roeddent yn cynnwys gwybodaeth o natur bersonol am y Nyrs a'i theulu, ac roeddent wedi eu hysgrifennu gan ddefnyddio termau a fyddai'n cael eu defnyddio rhwng ffrindiau. Cytunais i ailagor yr ymchwiliad.

Deuthum i'r casgliad fod y dystiolaeth a ddarparwyd gan Mrs B, tystiolaeth na chafodd ei chwestiynu gan y Nyrs, yn cefnogi'n llwyr ei hadroddiad cyson am weithrediadau'r Nyrs. Teimlwn fod y Nyrs wedi camu y tu hwnt i'r ffiniau priodol ar gyfer perthynas rhwng gweithiwr proffesiynol a chlaf ac y byddai yn naturiol wedi annog Mrs B i

5

ystyried natur eu perthynas fel 'cyfeillgarwch'. Deuthum i'r casgliad nad oedd y Nyrs wedi llwyddo'n ddigonol i gadw ei chyfrifoldebau proffesiynol a chymdeithasol ar wahân. Deuthum i'r casgliad bod digon o dystiolaeth i ddangos bod y Nyrs wedi dweud celwydd o'r blaen am natur ei pherthynas â Mrs B. Cyfiawnheais y gŵyn.

Argymhellais y dylai'r Ymddiriedolaeth ymddiheuro i Mrs B am ymarfer clinigol amhriodol y Nyrs Seiciatrig yn y Gymuned, ac y dylai gynnal archwiliad o waith y Nyrs er mwyn sicrhau ei bod yn gymwys i wneud ei gwaith yn ddiogel. Gofynnais hefyd i'r Ymddiriedolaeth gymryd camau er mwyn bodloni eu hunain bod addysg, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ei Nyrsys Seiciatrig yn y Gymuned yn briodol. Byddai hyn yn sicrhau eu bod yn gymwys i wneud y gwaith, a bod prosesau cadarn ar gyfer adolygu perfformiad wedi eu sefydlu er mwyn monitro gwaith staff clinigol.

## Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint – tynnu claf oddi ar restr ymarferwyr/delio â chwynion

Cwynodd Mr a Mrs A eu bod wedi cael eu tynnu oddi ar restr cleifion eu Practis Meddyg Teulu heb unrhyw rybudd o'r bwriad, ac nad oedd eu cwyn yn erbyn hyn wedi cael ei thrin yn unol â gweithdrefn gwyno'r GIG.

Aeth Mr A at y Practis i holi ynglŷn â phresgripsiwn ar ran ei wraig. Pan welodd Mrs A ei Meddyg Teulu rai wythnosau'n ddiweddarach ar gyfer ymgynghoriad arferol, cyfaddefodd y Meddyg Teulu fod camgymeriad wedi'i wneud ac ymddiheurodd. Derbyniodd Mrs A yr ymddiheuriad gan gredu fod y mater ar ben. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, derbyniodd Mr a Mrs A lythyr gan y Practis, wedi'i ddyddio ar y diwrnod pan welodd Mrs A â'r Meddyg, yn datgan fod y berthynas rhwng y Meddyg a'r claf wedi "dirywio i'r fath raddau fel na ellid ei hadfer" ac y byddai'n "rhaid tynnu'r teulu oddi ar y rhestr." Cynghorwyd Mr a Mrs A i gysylltu â'u Bwrdd Iechyd Lleol i drefnu i gofrestru gyda Meddyg Teulu newydd.

Wedi hynny, cwynodd Mr a Mrs A i'r Practis trwy'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) lleol. Yn yr ymateb i'r gwyn dywedodd Rheolwr y Practis fod y teulu wedi'i dynnu oddi ar y rhestr oherwydd ymddygiad "ymosodol ac ymfflamychol" Mr A wrth amau'r presgripsiwn, ac oherwydd bod y Practis wedi cael ar ddeall fod Mr A wedi bod yn eu beirniadu mewn siop fferyllydd leol. Dywedodd y llythyr hefyd fod y Meddyg Teulu wedi awgrymu wrth Mrs A yn ystod ei hymgynghoriad y byddai ymddiheuriad gan Mr A yn cael ei werthfawrogi; fodd bynnag, mae Mrs A yn gwadu i gais o'r fath gael ei wneud.

Yr oedd Mr a Mrs A yn anhapus gyda'r ymateb hwn ac ysgrifennodd y CIC at y Practis i ofyn am eglurhad pellach. Yn ei ateb, dywedodd Rheolwr y Practis y gallai'r ohebiaeth fynd ymlaen ac ymlaen, ac awgrymodd os oedd Mr a Mrs A am fynd â'r mater ymhellach y dylent gysylltu â chyfreithiwr. Wedyn gofynnodd Mr a Mrs A am adolygiad annibynnol i'w cwyn. Cyfeiriodd yr Adolygydd Lleyg y mater yn ôl i gael ei ddatrys yn lleol; fodd bynnag, ni theimlai'r Practis y gellid cyflawni unrhyw beth felly.

Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Offeryn Statudol Cymreig 2004 Rhif 478) newydd, sy'n gweithredu'r contract newydd y meddygon teulu, ac a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2004, yn rhoi rhwymedigaeth newydd ar feddygon teulu i roi rhybudd i gleifion yn y rhan fwyaf o amgylchiadau cyn y gweir penderfyniad terfynol i'w tynnu oddi ar restr y practis. Mae'r Rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i roi eglurhad i gleifion pan fyddant yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr; fodd bynnag, maent yn caniatáu iddynt ddatgan fod y berthynas wedi “dirywio i'r fath raddau fel na ellid ei hadfer” os yw, ym marn resymol y meddyg teulu, yn amhriodol i roi rhesymau mwy manwl.

Dywedodd Rheolwr y Practis wrth fy ymchwilydd nad oedd y Practis wedi tynnu enw'r teulu oddi ar y rhestr; roeddent wedi tynnu eu henw eu hunain oddi arni trwy gofrestru gyda meddyg teulu arall mewn ymateb i lythyr y Practis. Dadleuodd fod y llythyr wedi'i fwriadu fel “rhybudd” fel sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau, ac y gellid bod wedi ailystyried y penderfyniad pe bai Mr A wedi ymddiheuro am ei ymddygiad honedig.

Canfûm nad oedd y Practis wedi gweithredu'n unol â'r Rheoliadau wrth dynnu enwau Mr a Mrs A oddi ar eu rhestr. Daethum i'r casgliad na ellid yn rhesymol ddehongli'r llythyr a anfonwyd at y teulu fel dim byd ond penderfyniad terfynol. Nodais er bod Mr a Mrs A yn dechnegol wedi tynnu eu hunain oddi ar y rhestr, yr oedd yn amlwg eu bod wedi gwneud hynny'n unig mewn ymateb i lythyr y Practis.

Hefyd beirniadais y modd yr ymdriniwyd â chwyn Mr a Mrs A gan y Practis. Teimlais nad oedd yr ail lythyr a anfonwyd gan Reolwr y Practis yn ffordd adeiladol o fynd i'r afael â phryderon Mr a Mrs A; ac ni hysbyswyd Mr a Mrs A o'u hawl i ofyn am adolygiad annibynnol o'u cwyn.

Cytunodd y Practis i ymddiheuro i Mr a Mrs A ac i adolygu ei ffordd o ddelio â sut y mae'n tynnu enwau oddi ar restr y Practis a chwynion.

**Gellir gweld crynodebau eraill ar fy ngwefan: www.ombudsman.wales.org.uk**

6


# Adroddiad Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

Fel Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, rwy'n ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd eu bod wedi dioddef anghyfiawnder oherwydd achos o gamweinyddu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Gyrff Cyhoeddus penodol a Noddir gan y Cynulliad.

## 6.1 Trosolwg ac Ystadegau

Derbyniais 45 o gwynion yn ystod 2005/06, o gymharu â 42 yn 2004/05. Mae'n braf gweld bod nifer y cwynion yr wyf yn eu derbyn fel Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn dal i fod yn weddol fychan.  Fel y gwelir o'r tabl gyferbyn, roedd y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, o ystyried cwmpas eang cyfrifoldebau'r Cynulliad mae hyn i'w ddisgwyl.

Ceir manylion isod am natur y cwynion a dderbyniwyd. Fel y gwelir, y prif feysydd y cwynwyd yn eu cylch oedd amaethyddiaeth, cynllunio, ac iechyd/gofal cymdeithasol.



| Corff Cyhoeddus | Cyfanswm y Cwynion (dygwyd ymlaen a newydd yn y flwyddyn) | Tu hwnt i awdurdodaeth | Cynamserol | Terfynwyd | Setliad (buan) | Setliad | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn yn ddilys | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn ddim yn ddilys | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Asiantaeth yr Amgylchedd | 1 | 1 | | | | | | | |
| Awdurdod Datblygu Cymru | 1 | 1 | | | | | | | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 1 | | | | | | | | 1 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 60 | 9 | 9 | 11 | 2 | 1 | 9 | 1 | 19 |
| Y Comisiynwyr Coedwigaeth (ar gyfer materion yn ymwneud â Chymru) | 1 | | | | | | | | |
| CYFANSWM | 64 | 11 | 9 | 11 | 2 | 1 | 9 | 1 | 20 |

## 6.2 Crynodebau o Achosion

### Llywodraeth Cynulliad Cymru: Arolygiaeth Gynllunio Cymru

Cwynodd Mr M fod Arolygiaeth Gynllunio Cymru, gan weithredu ar ran y Cynulliad, heb ei hysbysu ynglŷn â phenderfyniad Arolygydd Cynllunio mewn perthynas â gorchymyn a wnaethpwyd dan Ddeddf Priffyrdd 1980, a'i fod o ganlyniad wedi ei amddifadu o'r cyfle i herio'r penderfyniad hwnnw. Cwynodd Mr M hefyd ynglŷn â'r modd yr ymdriniodd yr Arolygiaeth â'r gŵyn a wnaeth yn dilyn hynny.

Yn 2002, dechreuodd fy rhagflaenydd ymchwiliad i gŵyn flaenorol gan Mr M nad oedd yr Arolygiaeth wedi anfon copi ato o lythyr penderfyniad ynglŷn ag Apêl Gynllunio pan gyhoeddwyd y penderfyniad, er ei fod wedi gofyn am gopi yn yr ymchwiliad cyhoeddus i ystyried yr apêl. Dim ond pan holodd Mr M pa bryd roedd y penderfyniad yn debygol o gael ei gyhoeddi y dywedwyd wrtho fod y penderfyniad wedi ei gyhoeddi'n barod, ac anfonwyd copi o'r llythyr penderfyniad ato wedyn. Cwynodd Mr M ei fod felly wedi ei amddifadu o'r cyfle i herio'r penderfyniad o fewn y cyfnod o chwe wythnos a ganiateid ar gyfer apêl statudol.

Addawodd yr Arolygiaeth y byddai'n newid ei threfniadau gweinyddol er mwyn sicrhau na fyddai'r diffygion yn yr achos hwn yn digwydd eto. Cydnabu'r Arolygiaeth fod Mr M wedi colli ei hawl i apêl statudol ac mai'r unig ffordd y gallai herio'r penderfyniad oedd drwy adolygiad barnwrol. Cytunodd yr Arolygiaeth o ganlyniad, pe bai Mr M yn dewis mynd â'r mater ymhellach drwy wneud cais am adolygiad barnwrol a hwnnw'n aflwyddiannus, na fyddai'n ceisio adennill mwy o gostau nag a fyddai wedi codi drwy her statudol. Addawodd y Prif Arolygydd Cynllunio hefyd y byddai'n ymddiheuro'n bersonol i Mr M am gamweinyddiad yr Arolygiaeth. O ganlyniad i'r hyn a addawyd gan yr Arolygiaeth, barn fy rhagflaenydd ar 26 Tachwedd 2002 oedd y gallai gau'r ymchwiliad heb lunio adroddiad ffurfiol.

Yna, mynychodd Mr M ymchwiliad cyhoeddus arall mewn perthynas â chais cynllunio gwahanol yr oedd yn un o'r partïon a oedd â diddordeb ynddo. Unwaith eto nododd Mr M y byddai'n hoffi cael copi o'r penderfyniad. Gan nad oedd wedi clywed dim byd mwy am y peth, ffoniodd Mr M yr Arolygiaeth i holi pa bryd yr oedd yn debygol o dderbyn y penderfyniad. Daeth i'r amlwg unwaith eto nad oedd copi o'r penderfyniad cynllunio wedi ei anfon at Mr M.

Ysgrifennodd Mr M lythyr i'r Arolygiaeth i gwyno'n ffurfiol nad oedd wedi derbyn y llythyr penderfyniad, a bod y cyfnod statudol o 6 wythnos a ganiateid ar gyfer herio'r penderfyniad wedi pasio. Awgrymodd hefyd nad oedd y sicrwydd blaenorol a roddwyd iddo yn 2002 gan y Prif Arolygydd Cynllunio yn ddigonol.

Mae'n anodd credu, fel y cydnabu'r Arolygiaeth ei hun, fod Mr M wedi cael achos i gwyno eilwaith nad oedd yr Arolygiaeth wedi anfon copi o benderfyniad Arolygydd Cynllunio ato ac yntau wedi gofyn am un, ac â hawl i gredu felly y byddai'n ei dderbyn. Y ffaith amdani yw bod hyn wedi digwydd.

Ar adeg y gŵyn gyntaf, rhoddodd yr Arolygiaeth sicrwydd i Mr M a'm rhagflaenydd ei bod wedi cymryd camau er mwyn sicrhau na fyddai'r un peth yn digwydd eto. Gwelais fod y camau hynny wedi eu cymryd. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth mewn perthynas â'r ail ddigwyddiad hwn, mae'n amlwg bod y camau a gymerwyd gan yr Arolygiaeth yn dilyn achos 2002 yn ddiffygiol a bod lle i'w beirniadu.

Roedd y Cynulliad a'r Arolygiaeth yn barod i gydnabod bod camgymeriadau wedi eu gwneud yn yr achos diwethaf hwn. Soniodd y Cynulliad a'r Arolygiaeth wrthyf am y camau y maent wedi eu cymryd yn awr mewn perthynas â'r tîm Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau na fydd camgymeriad tebyg yn digwydd eto. Fodd bynnag, argymhellais y dylai'r Arolygiaeth fonitro effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu dilyn yn ymarferol.

Dywedodd Mr M wrthyf ei fod yn fodlon â'r camau a gymerwyd gan yr Arolygiaeth yn syth ar ôl darganfod y camgymeriad, ond ei fod yn anfodlon iawn â'r modd yr ymdriniwyd â'i lythyr cwyno. Argymhellais y dylai'r Arolygiaeth adolygu sut y mae llythyrau o'r fath yn cael eu geirio er mwyn sicrhau eu bod yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Cwynion yn gywir.

Rhoddwyd Mr M a'r rhai eraill a ofynnodd am gopi o'r llythyr penderfyniad dan anfantais mewn gwirionedd gan na chafodd copi o'r llythyr ei anfon atynt. Argymhellais y dylid anfon tâl cysurol o £250 i Mr M, a oedd wedi dioddef o ganlyniad i achos o gamweinyddu ar ran yr Arolygiaeth fwy nag unwaith.

Derbyniodd y Cynulliad Cenedlaethol a'r Arolygiaeth fy argymhellion ac ymddiheurasant unwaith eto i'r achwynydd am y diffygion hyn.

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Arolygiaeth Safonau Gofal

Roedd Ms Y yn bryderus ynglŷn â'r gofal a dderbyniodd ei hewythr tra mewn cartref nyrsio. O ganlyniad, ysgrifennodd at Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC), yr awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am ardal y cartref nyrsio, a'r Ymddiriedolaeth GIG y rhyddhawyd ei hewythr ohoni i'r cartref a'r cartref nyrsio ei hun. Cafodd y llythyr hwn ei gydnabod gan ASGC a dywedwyd wrth Ms Y y cynhelid ymchwiliad i'w chŵyn. Roedd Ms Y yn anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'i phryderon gan yr Arolygiaeth ac, o ganlyniad, cwynodd wrthyf i.

O ganlyniad i'm hymchwiliad, ni welais unrhyw dystiolaeth nad oedd ASGC wedi ymchwilio'n ddigonol i gŵyn Ms Y. Rhan o ddyletswydd yr Arolygiaeth yw cynnal un archwiliad â rhybudd ac un archwiliad dirybudd bob blwyddyn ym mhob cartref gofal. Pwrpas hyn yw canfod a yw'r darparwr cofrestredig yn bodloni gofynion Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002. Fodd bynnag, yn ogystal â'r archwiliadau hyn cynhaliodd ASGC, o ganlyniad i gwynion eraill ynglŷn â'r cartref gofal dan sylw, chwe ymweliad monitro ychwanegol a deg cyfarfod a drefnwyd gydag uwch staff yn y cartref rhwng Gorffennaf 2003 a Mehefin 2004. O ganlyniad, mae'r Arolygiaeth wedi mynd ati o ddifrif i ddelio gyda phryderon ynglŷn ag ansawdd gwasanaeth yn y cartref. Roedd fy archwiliad i o ffeiliau ASGC yn dangos yn glir eu bod mewn cysylltiad rheolaidd ag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol perthnasol ynglŷn â phryderon yn ymwneud â safonau yn y cartref nyrsio a'u bod yn gwneud gwaith monitro rheolaidd.

Fodd bynnag, fe welais dystiolaeth bod oedi annerbyniol yn ymchwiliad ASGC. Roedd yr oedi'n rhannol oherwydd problemau yn ymwneud â sicrhau cydweithrediad gwahanol asiantaethau wrth geisio datrys cwynion amlasiantaethol fel hyn. Roedd ASGC hefyd wedi bod yn esgeulus wrth fethu â chadw mewn cysylltiad â'r achwynydd drwy gydol y broses ymchwilio, ac roedd hyn yn fy marn i wedi peri i Ms Y feddwl nad oedd ei chŵyn yn cael ei chymryd o ddifrif. Roedd y diffygion hyn wedi cael eu cydnabod gan Brif Weithredwr ASGC, a oedd eisoes wedi ymddiheuro'n bersonol i'r achwynydd ar ran yr Arolygiaeth am yr oedi yn yr ymchwiliad a'r cyfathrebu gwael ar ran yr Arolygiaeth.

Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi ymddiheuro ac wedi nodi'r camau a gymerwyd gan yr Arolygiaeth er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn unol â threfn trin cwynion yr Arolygiaeth yn awr.

Teimlwn fod hwn yn ateb priodol ac roeddwn yn gobeithio y gallai'r achwynydd fod yn dawel ei meddwl yn awr bod ymchwiliad yr Arolygiaeth i'w chŵyn yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, deuthum â'r ymchwiliad i ben ar y pwynt hwn, a chyfiawnheais y gŵyn ynglŷn â'r modd yr ymdriniodd yr Arolygiaeth â'r gŵyn yn unig.

7

# Adroddiad Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru

Deuthum yn Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru ar 15 Gorffennaf 2005. Cyn hynny y Gyfarwyddiaeth Dai yn Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd yn ystyried cwynion yn ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ar yr amod bod problem wedi digwydd ar 15 Gorffennaf 2005, neu ar ôl y dyddiad hwnnw, gallaf ymchwilio i faterion fel cwyn gan denant cymdeithas dai am fethiant ar ran ei landlord – er enghraifft, yn ymwneud â rheoli ei gartref. Mae'n bosib y bydd gan aelodau eraill o'r cyhoedd hawl i gwyno am landlord cymdeithasol os yw ei weithredoedd neu ei fethiant i weithredu yn effeithio'n bersonol arnynt hwy. Enghraifft o hyn fyddai pe bai person yn byw yn agos at dŷ sy'n eiddo i landlord cymdeithasol ac yn teimlo ei fod yn dioddef yn bersonol o ganlyniad i fethiant y landlord i reoli'r eiddo'n effeithiol.

## 7.1 Trosolwg ac ystadegau

Ceir manylion am y cwynion a dderbyniais ynglŷn â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ers 15 Gorffennaf 2005 ar y tudalennau sy'n dilyn.

| Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | Cyfanswm y Cwynion (dygwyd ymlaen a newydd yn y flwyddyn) | Tu hwnt i awdurdodaeth | Cynamserol | Terfynwyd | Setliad (buan) | Setliad | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn yn ddilys | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn ddim yn ddilys | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bro Myrddin | 1 | | | 1 | | | | | |
| Cymdeithas Tai Cadwyn | 1 | | | | | | | | 1 |
| Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd | 1 | 1 | | | | | | | |
| Cymdeithas Tai Rhondda | 1 | | | | | | | | 1 |
| Cymdeithas Tai Unedig Cymru | 3 | | 2 | | | | | | 1 |
| Cymru a'r Gorllewin | 3 | 1 | 1 | 1 | | | | | |
| Cymuned Caerdydd | 1 | 1 | | | | | | | |
| Charter Housing | 1 | | | | | | | | 1 |
| Charter Housing Association Ltd | 1 | | | 1 | | | | | |
| Family Housing Association (Wales) Ltd | 1 | | | 1 | | | | | |
| Gogledd Cymru | 1 | 1 | | | | | | | |
| Gwerin (Cymru) | 2 | | 1 | 1 | | | | | |
| Hafod | 1 | | | | | | | | 1 |
| Morgannwg a Gwent | 1 | | 1 | | | | | | |
| Rhondda | 1 | | | | | | | | 1 |

| Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | Cyfanswm y Cwynion (dygwyd ymlaen a newydd yn y flwyddyn) | Tu hwnt i awdurdodaeth | Cynamserol | Terfynwyd | Setliad (buan) | Setliad | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn yn ddilys | Cyhoeddwyd Adroddiad (ddim yn gyhoeddus) – cwyn ddim yn ddilys | Yn dal i fod ar agor ar 31/3/06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai Taf | 1 | 1 | | 1 | | | | | |
| Tudball & Edwards | 1 | | | | | | | | 1 |
| Valleys to Coastc | 4 | | 1 | | | | | 1 | 2 |
| Ymddiriedolaeth Tai Casnewydd | 1 | | | | | | | | 1 |
| Ymddiriedolaeth Tai Gwalia | 1 | 1 | | 1 | | | | | |
| CYFANSWM | 28 | 6 | 6 | 5 | | | | 1 | 10 |

## 7.2 Crynodeb o Achos: Cymdeithas Tai Valleys to Coast

Enwebwyd Ms A i Valleys to Coast gan y Cyngor er mwyn ei hailgartrefu gan ei bod yn ddigartref. Cysylltwyd â Ms A ynglŷn ag eiddo ond, cyn i gynnig gael ei wneud, darganfu Valleys to Coast fod ganddi gollfarnau troseddol yn gysylltiedig â thenantiaeth flaenorol gyda'r Cyngor. O ganlyniad, gwrthodwyd enwebiad Ms A. Ni roddwyd eglurhad iddi pam bod ei henwebiad wedi ei wrthod ac ni chafodd ei hysbysu ynglŷn ag unrhyw hawl i apelio.

Roedd yn ymddangos bod y cytundeb enwebu rhwng y Cyngor a Valleys to Coast yn rhoi hawl i'r Cyngor apelio yn erbyn penderfyniadau enwebu, ond nad oedd yr hawl hon yn berthnasol i'r enwebeion eu hunain. Rhoddid eglurhad ysgrifenedig i ymgeiswyr a oedd yn gwneud cais yn uniongyrchol i Valleys to Coast am gael eu hailgartrefu ynghyd â hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i'w hatal neu eu gwahardd o'r rhestr dyrannu tai. Roedd Ms A mewn gwirionedd wedi ei gwahardd o'r rhestr ailgartrefu gan Valleys to Coast heb ddilyn trefn wahardd y gymdeithas ei hun.

Cyfiawnheais y gŵyn. Cytunodd Valleys to Coast i roi eglurhad ysgrifenedig i Ms A ynglŷn â pham roedd wedi ei gwahardd a'i hysbysu ynglŷn â'i hawl i apelio. Cytunodd Valleys to Coast hefyd i newid yr anghysonder yn y cytundeb enwebu er mwyn sicrhau bod y rhai hynny a enwebid ar gyfer eu hailgartrefu yn gallu apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i'w gwahardd neu eu hatal o'r rhestr ailgartrefu.

# Atodiad

## Perfformiad o gymharu â Chynllun Corfforaethol 2005/06

Mae eleni wedi bod yn dipyn o her ond yn flwyddyn lwyddiannus iawn ar y cyfan. Y prif nod oedd sicrhau bod cynlluniau ombwdsmyn gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu had-drefnu'n llwyddiannus yng Nghymru, heb amharu ar ein gweithgareddau dydd i ddydd, sef ymchwilio i gwynion.

Roedd hyn yn golygu llawer iawn o waith wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r swydd newydd, a diddymiad swyddi presennol y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru ar 31 Mawrth 2005. Y nod oedd trawsnewidiad llyfn.

Cefais fy mhenodi gan EM Y Frenhines fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn Hydref 2005. O ganlyniad i hyn, a'r ffaith fy mod wedi fy mhenodi'n flaenorol i bob un o swyddfeydd presennol yr Ombwdsmon, roedd modd imi sicrhau bod y broses o gynllunio a gweithredu gwasanaeth gwell a fyddai'n cynnig 'siop-un-stop' i ddinasyddion yn cael dechrau da.

Gwelwyd llawer iawn o weithgareddau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth weithredu dulliau newydd o ddarparu gwasanaeth, gan gynnwys trefn gwyno newydd a systemau technoleg gwybodaeth newydd. Roedd fy nghynllun corfforaethol ar gyfer y llynedd yn nodi nifer o weithgareddau allweddol yn ymwneud yn bennaf â'r gwaith hwn o drawsnewid ac rwy'n adrodd yma ar y canlyniad yn erbyn y targedau a osodwyd.

| Targed | Canlyniad |
|---|---|
| **1. Deddfwriaeth:** | |
| (a) Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Sicrhau bod yr holl drefniadau angenrheidiol wedi eu gwneud erbyn y dyddiad y daw'r Ddeddf i rym er mwyn hwyluso'r gwaith o drawsnewid llyfn o'r cynlluniau Ombwdsmyn presennol i'r cynllun Ombwdsmon unedig newydd. | Cyflawnwyd. Roedd y trefniadau i gyd wedi eu gwneud erbyn 31 Mawrth 2006. |

| Targed | Canlyniad |
|---|---|
| (b) Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru - Paratoi ar gyfer ymgymryd â'r rôl hon mewn perthynas â chymdeithasau tai pe bai'r ddeddfwriaeth berthnasol yn dod i rym cyn y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. | Cyflawnwyd. O ganlyniad i drafodaethau gyda'r Cynulliad Cenedlaethol roedd y trefniadau trosglwyddo yn barod ar gyfer y dyddiad (15 Gorffennaf) pan ymgymerodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru â'r cyfrifoldeb am gwynion yn ymwneud â chymdeithasau tai. Paratowyd a dosbarthwyd taflenni gwybodaeth hefyd. |
| **2. Staffio:** | |
| (a) Adolygu effeithiolrwydd y strwythur staffio newydd | Arweiniodd adolygiad o waith ymchwilio/asesu at recriwtio rhagor i'r uned asesu a chreu haen arall o reolaeth dan lefel Cyfarwyddwr. |
| (b) Ystyried pa ddatblygiadau y mae angen eu gwneud o ran swyddogaethau 'eraill', fel adnoddau dynol, ac ati | Trefniadau interim wedi eu sefydlu yn ystod 2005/06. Bydd angen ystyriaeth bellach i gyflawni'r swyddogaeth adnoddau dynol yn 2006/07. |
| (c) Parhau â'r gwaith o gysoni telerau ac amodau | Cytunwyd ar delerau ac amodau newydd gyda'r undebau llafur a gwahoddwyd y staff i arwyddo contractau newydd. |
| (d) Gweithredu trefniadau ar gyfer deialog gyda chynrychiolwyr staff. | Mae'r Cyngor Cynrychiolwyr Staff wedi ei ffurfio erbyn hyn a'r cyfarfodydd cyntaf wedi eu cynnal. |
| **3. Hyfforddiant:** | |
| (a) Deddfwriaeth - Cwblhau hyfforddiant priodol fel bod staff yn gallu ystyried cwynion yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Yr holl hyfforddiant perthnasol wedi ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2006. |

| Targed | Canlyniad |
|---|---|
| (b) System Rheoli Achosion – Asesu a oes angen rhagor o hyfforddiant staff ar gyfer y system newydd a gyflwynwyd ym Mawrth 2005. | Yr holl hyfforddiant perthnasol wedi ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2006. |
| **4. Uned Asesu:** | |
| (a) Parhau i ddatblygu'r uned newydd a sefydlwyd. Er mwyn cefnogi hyn, trefnu bod aelod profiadol o staff yn cael ei secondio i'r tîm o gynllun Ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus arall. | Mae llawer o ddatblygiadau wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Trefnwyd secondiad o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban a phrofodd yn fuddiol iawn. Dangosodd hyn bod angen Rheolwr Uned Asesu llawn-amser, swydd sydd bellach wedi ei chreu a'i llenwi. |
| (b) Ceisio lleihau i bythefnos yr amser y mae'n ei gymryd i wneud yr asesiad cyntaf i weld a ellir ymchwilio i gŵyn. | Penderfynwyd bod pythefnos yn darged afrealistig. Y targed ar gyfer 2006/07 fydd 90% o fewn 3 wythnos a 100% o fewn 6 wythnos. |
| **5. Timau Ymchwilio:** | |
| (a) Rhagor o waith cysoni a datblygu a chyflwyno trefn gwyno gyffredin<br>(b) Cynnal adolygiad cyn gweithredu o'r system rheoli achosion | Sefydlwyd grŵp adolygu rheolaeth achosion. Gwnaethpwyd nifer o newidiadau i'r system a chyflwynwyd trefn gwyno ddiwygiedig. |
| (c) Ystyried pa gamau y dylid eu cymryd er mwyn lleihau nifer yr achosion sy'n aros i gael eu hystyried | Rhoddwyd sylw i nifer yr achosion sy'n crynhoi (fel rhan o hyn recriwtiwyd cyn-ymchwiliwr i weithio ar sail cyfnod byr). |

| Targed | Canlyniad |
|---|---|
| (d) Ystyried pa ddulliau gweithredu y gellid eu cyflwyno er mwyn cyflymu'r broses o ymchwilio i achosion (ond ni ddylai hyn fod ar draul yr ymchwiliadau trylwyr, o safon uchel sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd). | Penderfynwyd recriwtio rhagor o swyddogion asesu (gweler 2(a) uchod). Cymerwyd camau hefyd i gyflymu'r broses asesu. O ganlyniad i hyn, bydd pob achwynydd yn elwa o ganlyniad cynt, pa un a yw ei achos yn mynd ymlaen i ymchwiliad llawn ai peidio. |
| **6. Gwasanaethau Corfforaethol:** | |
| (a) Integreiddio swyddogaeth gyllid y tri chynllun presennol yn llawn, yn enwedig yr agweddau hynny sy'n cael eu cyflawni ar ran Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru ar hyn o bryd gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn Llundain. Mae angen gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer gwasanaeth Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru. | Cyflawnwyd y gwaith o integreiddio'r swyddogaeth gyllid. |
| (b) Cynhyrchu adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd i'w hystyried gan yr Uwch Dîm Rheoli | Cynhyrchir adroddiadau monitro yn fisol erbyn hyn ar gyfer cyfarfodydd y tîm rheoli. |
| (c) Gwneud asesiad cyflawn a nodi unrhyw welliannau/addasiadau y mae angen eu gwneud i'r amgylchedd gweithio ar ôl symud i swyddfeydd newydd ym Mawrth 2005. | Penodwyd ymgynghorydd iechyd a diogelwch allanol a gwnaethpwyd asesiad llawn o'r gweithle. Ni nodwyd unrhyw broblemau mawr. Cwblhawyd asesiadau o orsafoedd gwaith unigol. Rhoddwyd sylw ac ymatebwyd i'r problemau a nodwyd. Rhoddwyd sylw hefyd i broblemau amgylcheddol fel sŵn a chyflwynwyd gwelliannau. |

| Targed | Canlyniad |
|---|---|
| **7. Safonau Perfformiad:** | |
| (a) Dangosyddion Perfformiad – Sefydlu targedau priodol a chadarn er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gennym | Yn sgil ystyried adroddiadau monitro perfformiad misol ynghyd â chymathu targedau a bennwyd gan gynlluniau Ombwdsmyn eraill pennwyd dangosyddion perfformiad cadarn ar gyfer y sefydliad newydd. |
| (b) Data Gwybodaeth Rheoli – Gwerthuso a yw'r system rheoli achosion newydd yn darparu hynny o wybodaeth y bernir bod ei hangen. | Mae data rheoli'n dal i ddatblygu, ond ar hyn o bryd mae'r system rheoli achosion yn gallu darparu'r math o wybodaeth y gofynnir amdani. |
| **8. Cyhoeddusrwydd ac Allgymorth:** | |
| (a) Cynnal lansiad ar y diwrnod y daw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i rym, gan sicrhau sylw yn y wasg a'r cyfryngau cysylltiedig. | Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n lansio swyddfa newydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – ym Mai 2006. |
| (b) Paratoi rhaglen o weithgareddau allgymorth ar gyfer ail hanner y flwyddyn | Ar ôl dosbarthu llawer o daflenni gwybodaeth newydd ym mhob cwr o Gymru yn hanner cyntaf y flwyddyn, roedd y gweithgaredd allgymorth ar gyfer ail hanner y flwyddyn yn canolbwyntio ar nifer o gyflwyniadau llafar gan uwch reolwyr a staff; ymddangosodd yr Ombwdsmon ar y teledu nifer o weithiau hefyd ar raglenni materion cyfoes/newyddion Cymreig. |

| Targed | Canlyniad |
|---|---|
| (c) Datblygu rhagor ar y wefan newydd fel bod mwy o wybodaeth ar gael. | Cwblhawyd ail ran y gwaith o ddatblygu'r wefan yn Rhagfyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan yn awr. |
| **9. Cynlluniau Ombwdsmon eraill:** | |
| (a) Adolygu'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaeth Iechyd Lloegr | Cwblhawyd. |
| (b) Parhau â'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau â chynlluniau eraill er mwyn rhannu'r arferion gorau. | Rydym yn dal i fynychu cyfarfodydd BIOA a chyfarfodydd ombwdsmyn gwasanaethau cyhoeddus amrywiol yn ogystal ag ymweld â swyddfeydd ombwdsmyn unigol yn y DU. Roedd yn braf hefyd cael cynnal cyfarfod Ombwdsmyn y Sector Cyhoeddus yn ein swyddfeydd newydd ym Mhencoed yn Hydref 2005. |
| **10.** Canllawiau Ymarfer Da: Nodi meysydd lle mae angen cyhoeddi canllawiau i'r cyrff sy'n rhan o awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Ffurfiwyd gweithgor ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda'r bwriad o gyhoeddi canllawiau yn ymwneud â threfn gwyno ar gyfer llywodraeth leol ym Mehefin/Gorffennaf 2006. |
| **11.** Atebolrwydd i'r Cyhoedd: Datblygu polisïau/cynlluniau er mwyn sicrhau y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â deddfwriaethau amrywiol e.e. y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; Deddfau Cyfle Cyfartal; Deddf yr Iaith Gymraeg. | Polisïau/cynlluniau wedi eu sefydlu ac eithrio lle mae'n rhaid dilyn amserlen y Comisiynydd Gwybodaeth a Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn perthynas â chynlluniau sydd i'w cymeradwyo gan y cyrff hyn. |

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

**Ffôn:** 01656 641150
**Ffacs:** 01656 641199
**E-bost:** ask@ombudsman-wales.org.uk
**We:** www.ombudsman-wales.org.uk

**Gellir cael copïau pellach o'r ddogfen hon oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy gwneud cais drwy unrhyw un o'r dulliau cysylltu uchod.**





